# Dyraniadau

## Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru

Comisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

# TABL CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 3 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Yr hyn a glywsom: y prif bwyntiau | 8 |
| Amrywiad mewn dulliau gweithredu lleol | 9 |
| Cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref | 14 |
| Cyflenwad a galw | 16 |
| Pwy sy'n cael eu cartrefu, os nad aelwydydd digartref? | 19 |
| Beth fedrid ei wella? | 23 |
| Dewis | 31 |
| Risgiau dyrannu mwy o dai i aelwydydd digartref | 37 |
| Manteision dyrannu mwy o dai i aelwydydd digartref | 40 |
| Meysydd a awgrymir ar gyfer ymchwil pellach | 42 |
| Casgliad | 44 |
| Atodiad 1: compendiwm o 5 darn sylw | 46 |
| Atodiad 2: cwestiynau arolwg di-enw cymru gyfan | 59 |
| Atodiad 3: cwestiynau cais cyflwyno data ychwanegol ardaloedd sylw | 60 |
| Llyfryddiaeth | **62** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Ym mis Mawrth 2023 ar ôl cael y dasg o adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru, soniodd y Panel Adolygu Arbenigol am yr angen i ddeall mwy am brosesau lleol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol. Mewn ymateb, cafodd y darn hwn o waith ei gomisiynu ar y cyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru a Thîm Tai Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd yr ymchwil yn ystod mis Ebrill a Mai 2023, a chafodd y canfyddiadau allweddol eu cyflwyno ddechrau mis Mehefin mewn cyfarfod rhithiol Cymru-gyfan o randdeiliaid, yn cynnwys cynrychiolwyr awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) a'r trydydd sector.

Cymerodd rhanddeiliaid o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ar draws Cymru ran yn yr ymchwil hwn mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, gan greu corff cyfoethog o wybodaeth i'w ddefnyddio. Edrychodd yr ymchwil ar brosesau dyrannu drwy ddwy lens: yn gyntaf ar lefel Cymru-gyfan (drwy arolwg dienw); ac yn ail drwy ganolbwyntio ar bump 'ardal sylw' a ddetholwyd ymlaen llaw, lle cafodd data ychwanegol ei gyflenwi, a chynhaliwyd grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un.

Daeth pedair thema allweddol i'r amlwg ar draws pob set data, gan greu cefnlen ar gyfer ystyried canfyddiadau manylach:

- Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y cyflenwad presennol o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, a'r galw. Mae hyn yn neilltuol o wir am anheddau un ystafell wely. Mae ymdeimlad fod  pwysau yn adeiladu yn y system oherwydd y diffyg cyfatebiaeth cynhenid hwn yn agosáu at bwynt berwi;
- Mae dyraniadau yn rhan o 'ecosystem' o dai cymdeithasol, wedi ei graddnodi i roi ystyriaeth i ffactorau lluosog wrth benderfynu ar y 'paru' gorau ar gyfer aelwyd gyda chartref. Mae newidiadau i'r prosesau hyn yn creu effeithiau, gan efallai darfu ar y 'llif' yn y system tai yn gyffredinol, felly mae'n bwysig peidio gweld dyraniadau fel 'bwled arian' ar gyfer yr argyfwng tai;
- Yn gyffredinol teimlir mai ailgartrefu cyflym yw'r dull gweithredu cywir yn yr hinsawdd cyfredol, ond mae angen seilwaith i gefnogi ei gyflenwi yn effeithiol. Mae ymdeimlad fod gan bobl anghenion cymorth cynyddol gymhleth, ac nad oes gan wasanaethau cymorth y galluedd i ymdopi mewn modd amserol, i gefnogi tenantiaethau cynaliadwy a chymunedau cydlynol. Mae gan bob aelwyd amgylchiadau, anghenion a dewisiadau neilltuol, p'un ai ydynt yn dechnegol 'ddigartref' a bod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd iddynt, ai peidio. Mae rhoi

ystyriaeth i'r holl ffactorau unigol adeg dyrannu yn meithrin cynaliadwyedd, ond mae'n ei gwneud yn anodd cadw at bolisïau a phrosesau anhyblyg.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ac yn fframio'r data mwy manwl a ddeilliodd o'r ymchwil er mwyn arddangos sylwadau rhanddeiliaid am sut mae prosesau dyrannu yn rhyngweithio gyda'r gwaith i gartrefu mwy o aelwydydd digartref yng Nghymru, a beth fedrid ei wella.

Rhoddir argymhellion ar ddiwedd yr adroddiad am ymchwil pellach, gan ddweud y gallai fod yn fanteisiol cymryd golwg llawer mwy manwl ar y data sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth bresennol o gyfraddau dyrannu, gan driongli hyn gyda mapio prosesau lleol.

Rhoddir 5 adroddiad byr ar yr ardaloedd sylw yn Atodiad 1, pob un yn rhoi sylw i set unffurf o ffeithiau allweddol ar gyfer pob ardal, yna yn rhoi pennawd ar eu dull gweithredu lleol, ac yn olaf yn rhoi golwg manwl cryno r eu prosesau dyrannu lleol. O'u darllen mewn cysylltiad gyda gweddill yr adroddiad (sy'n dod ynghyd â'r canfyddiadau o'r ardaloedd sylw gyda data ehangach Cymru-gyfan), maent yn rhoi gwrthbwynt defnyddiol, gan arddangos y gwahaniaethau a'r tebygrwydd ar draws Cymru, mewn ymateb i'r argyfwng presennol.

Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y gwaith hwn am roi eu hamser yn hael ar gyfer cyfarfodydd a hefyd grwpiau ffocws ac i ddarparu'r ddata angenrheidiol mewn ymateb i geisiadau. Bu'n fraint gweld drosof fy hun wybodaeth, arbenigedd, egni a phroffesiynoldeb cydweithwyr yn y sector tai yng Nghymru.

# CYFLWYNIAD

## Cyd-destun

Ar gais y Gweinidog Newid Hinsawdd (Julie James, AS), cafodd Panel Adolygu Arbenigol ei gynnull gan Crisis i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r panel yn ystyried tystiolaeth gan wasanaethau a phobl gyda phrofiadau bywyd o ddigartrefedd, ynghyd ag arbenigedd arall mewn ymarfer, polisi ac ymchwil ar ddigartrefedd.

Bwriedir i'r darn hwn o waith ar brosesau dyrannu gefnogi trafodaethau'r panel ar y mater, yn ogystal â chyfrannu at y gyfrol ehangach o ymchwil i gefnogi gwneud polisi seiliedig ar dystiolaeth. Comisiynwyd y gwaith ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith, er sylw'r Panel Adolygu Arbenigol, yn ystod Mehefin 2023.

Daethpwyd â chydweithwyr o bob rhan o'r sector yng Nghymru ynghyd ddechrau mis Mehefin mewn digwyddiad rhithiol ar-lein ar gyfer Cymru gyfan, i drafod y canfyddiadau allweddol. Yn y digwyddiad hwn, cymerodd awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill ran mewn sgyrsiau adeiladol ar ffurf gweithdy yn defnyddio canfyddiadau fel man dechrau.

## Proses a methodoleg

Cafodd data ei gasglu mewn cyfnod 6 wythnos rhwng Ebrill – Mai 2023:

- **Ar lefel Cymru-gyfan,** roedd cyfle i Gyfarwyddwyr Tai pob cymdeithas tai a Phenaethiaid Tai awdurdodau lleol ar draws Cymru i gyflwyno ymatebion i arolwg dienw. Nod hyn oedd casglu adborth ansoddol ar y dulliau dyrannu mewn gwahanol rannau o Gymru, a syniadau ar yr hyn a allai newid. Mae cwestiynau o'r arolwg ar gael yn Atodiad 2. Cafwyd 45 ymateb, 22 gan awdurdodau lleol a 22 gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
- **Mewn 5 lleoliad daearyddol a ddetholwyd ymlaen llaw (yr ardaloedd 'sylw'),** fe wnaethom geisio deall y dulliau dyrannu yn fwy manwl. Yn yr ardaloedd hyn, cymerodd cydweithwyr o awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ran mewn grwpiau ffocws a sgyrsiau un i un a chafwyd data ansoddol ohonynt. Gofynnwyd hefyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr ardaloedd sylw i ymateb i gyflwyniad data ychwanegol. Mae'r cwestiynau oedd yn sail i'r cais

ychwanegol hwn am ddata ar gael yn Atodiad 3. Yr ardaloedd sylw a ddetholwyd ar gyfer y gwaith dyfnach hyn oedd:

- Sir Gaerfyrddin
- Caerdydd
- Wrecsam
- Castell-nedd Port Talbot
- Partneriaeth SARTH (‘Single Access Route to Housing’) ar draws Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

Caiff darnau ysgrifenedig ar bob ardal sylw eu cyflwyno fel compendiwm yn Atodiad 1. Cyflwynir pob un o’r 5 darn yn yr un fformat ac maent yn cynnwys: ffeithiau allweddol, pennawd yn crisialu sefyllfa’r ardal ar ddyraniadau, a golwg manwl cryno.

## Cwmpas

Y briff ar gyfer y gwaith hwn oedd:

- Deall cyfraddau dyraniadau i aelwydydd sydd mewn risg o ddigartrefedd neu sy’n profi digartrefedd yn yr ardaloedd sbotolau, ac i ddeall unrhyw wahaniaethau mewn diffiniadau.
- Deall i bwy arall, heblaw’r rhai sy’n ddigartref neu mewn risg o ddigartrefedd, y caiff tai cymdeithasol eu dyrannu yn yr ardaloedd sylw yng Nghymru.
- Darparu tystiolaeth ar y rhwystrau i ddyrannu anheddau i aelwydydd digartref. Gallai hyn gynnwys (ond nid yw wedi ei gyfyngu i) rwystrau’n gysylltiedig â’r dull gweithredu lleol (er enghraifft osodiadau seiliedig ar ddewis, cytundebau enwebu, gofynion cyn-tenantiaeth, gofynion preswyliaeth, pwysau gwleidyddol), rhwystrau mewn deddfwriaeth/rheoliadau/canllawiau a rhwystrau ehangach yn cynnwys cyflwr, argaeledd a chyflenwad stoc, proffil stoc, argaeledd a mynediad i wasanaeth cymorth a gweithgaredd ataliol ehangach.
- Ymchwilio a chasglu cynigion ar gyfer newid i ddeddfwriaeth, cyllid, polisi ac arweiniad a fyddai’n cefnogi’r ymagwedd lleol at ddyraniadau i aelwydydd digartref, a’r cyfleoedd a’r risgiau sy’n gysylltiedig gyda hyn.

### Defnyddio’r data

Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno’r themâu a’r canfyddiadau allweddol a ddaeth i’r amlwg ar draws yr holl setiau data. Lle’r oedd gwahaniaethau amlwg rhwng y canfyddiadau yn deillio o’r arolwg dienw Cymru-gyfan a’r cyflwyniadau data neu waith anosoddol yn yr ardal sylw, caiff hyn ei amlygu a’i wneud yn glir. Nodir hefyd lle roedd cydgyfeiriad trawiadol ar y canfyddiadau ar lefel Cymru gyfan a hefyd ddata ardal sylw.

Ni chaiff unrhyw gyfranogydd neu sefydliad unigol eu henwi wrth gyflwyno’r canfyddiadau (heblaw yn yr ardaloedd sylw, lle’n berthnasol) ac mae pob dyfyniad gair am air yn ddienw.

# YR HYN A GLYWSOM: Y PRIF BWYNTIAU

Daeth rhai prif bwyntiau i'r amlwg ar draws yr holl ddata, p'un ai drwy sgyrsiau un i un a grwpiau ffocws yn yr ardaloedd sylw, yn y cyflwyniadau di-enw i'r arolwg neu fel sylwebaeth geiriad rhydd yn y cyflwyniadau data ychwanegol gan ymatebwyr mewn ardaloedd sylw.

Oherwydd eu bod mor amlwg, cânt eu cyflwyno fel cefnlen i'r pwyntiau mwy penodol a manwl sy'n dilyn.

## Diffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad/galw

- Mae'r cyflenwad stoc yn gyfyngedig ac mae'r rhestri yn cynyddu (ymddengys yn ddibendraw);
- Mae'r pwysau yn y system yn cynyddu heb unrhyw lacio i'w weld;
- Ni chaiff y mater ei ddatrys drwy ddiwygio prosesau dyraniadau, er y gellid gwneud enillion bach mewn rhai ardaloedd.

## Yr 'Ecosystem'

- Mae polisïau dyrannu yn rhan o ecosystem ac mae newidiadau iddynt yn creu effeithiau mewn ffyrdd eraill;
- Nid yw prosesau dyrannu yn 'fwled arian';
- Mae dyrannu mwy i aelwydydd digartref yn tarfu ar y 'llif' drwy dai cymdeithasol, yn creu gwahanol fathau o waith ac yn hybu cymhellion newydd i'r system.

## Seilwaith ar gyfer cymorth

- Teimlir yn gyffredinol mai ailgartrefu cyflym yw'r dull gweithredu cywir, ond mae angen seilwaith;
- Mae ymdeimlad fod gan ymgeiswyr a thenantiaid anghenion cymorth cynyddol ac nad oes gan wasanaethau y capasiti i ymdopi;
- A allwn gyflawni ailgartrefu cyflym heb y darnau cywir o'r jig-so yn eu lle?

## Mae pawb yn wahanol

- Mae pawb yn wahanol. Felly pan ofynnwn: 'I bwy mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu, os nad i'r rhai sy'n ddigartref?' mae'r ateb yn gymhleth;
- Mae rhoi ystyriaeth i anghenion, dewisiadau ac amgylchiadau yn meithrin cynaliadwyedd a chymunedau cydlynol ond mae'n ei gwneud yn anodd cydymffurfio gyda pholisi a phroses anhyblyg.

# AMRYWIAD MEWN DULLIAU GWEITHREDU LLEOL

Er nad diben yr ymchwil oedd cymharu a gwrthgyferbynnu yn llawn y tebygrwydd a'r gwahaniaethau mewn prosesau dyrannu ar draws Cymru, mae'n anochel fod y data a gasglwyd wedi amlygu rhai o'r amrywiadau sy'n werth eu nodi, ac a gaiff eu hamlinellu yn yr adran hon.

## Cofrestri tai cyffredin

O'r 45 a ymatebodd i arolwg Cymru-gyfan, dywedodd 7 nad ydynt yn gweithredu na'n perthyn i gofrestr tai gyffredin. Ar draws yr holl ardaloedd sylw, nid yw Wrecsam a Chastell-nedd Port Talbot yn defnyddio cofrestri tai cyffredin tra bod Sir Gaerfyrddin, Caerdydd a Phartneriaeth SARTH yn gwneud hynny.

Yn arolwg di-enw Cymru, gofynnodd Cwestiwn 5 'beth ydych chi'n meddwl sy'n gweithio'n dda am y dull presennol o ddyrannu yn eich ardal leol?' Mewn ymateb i'r cwestiwn yma, defnyddiodd llawer o ymatebwyr y gofod geiriad rhydd i nodi fod y gofrestr tai gyffredin yn gryfder.

Dengys yr enghreifftiau dilynol o'r arolwg dienw yn fwy penodol mai'r hyn y mae pobl yn ei deimlo yw cryfderau'r gofrestr tai gyffredin yw:

- Un pwynt mynediad ar gyfer ymgeisydd
- Clir, tryloyw a rhwydd ei ddeall
- Un set o reolau ar gyfer pawb
- Gallu i fonitro dyraniadau i sicrhau cysondeb
- Ffynhonnell cyffredin da o ddata i ddeall angen lleol ac ymateb yn unol â hynny
- Effeithiolrwydd ac osgoi dyblygu
- Cydweithio o amgylch gwell gwasanaeth cwsmeriaid i ymgeiswyr
- Gwasanaeth cyson i'r ymgeisydd

## Lefelau cytundebau enwebu

Gofynnwyd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn arolwg di-enw Cymru gyfan i ddweud pa lefel o gytundebau enwebu a weithredant gyda'u hawdurdod lleol. Cafwyd ystod eang o ymatebion yng nghyswllt y cwestiwn, a dewisodd ymatebwyr roi manylion eu trefniadau lleol mewn gwahanol ffyrdd amrywiol (roedd hyn yn gwestiwn geiriad rhydd) felly nid yw'r ymatebion yn rhoi darlun pendant o'r lefelau ar draws Cymru.

Fodd bynnag, ymddengys fod y rhan fwyaf yn gweithredu lefel uchel o enwebiadau. Dywedodd 12 ymateb fod ganddynt 100% enwebiadau (er mewn achosion lle mae landlord cymdeithasol cofrestredig yn gweithredu mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, dywed rhai efallai mai dim ond yn un o'r ardaloedd hynny y mae'r cytundeb 100% yn weithredol). Nid yw pob un o'r

ymatebion hyn yn dweud yn benodol fod gytundeb enwebu yn ei le (mae un dweud yn syml ‘caiff ein holl leoedd gwag eu dyrannu i ymgeiswyr ar gofrestr yr awdurdod lleol’).

Mae eithriad amlwg mewn dau achos, lle mae’r ymatebion yn dweud yn uniongyrchol nad oes ganddynt unrhyw ofyniad am enwebiadau.

Mewn llawer o achosion lle mae ymateb yn dweud fod cytundeb enwebu 100% yn ei le, mae hyblygrwydd i weithredu nifer neilltuol o osodiadau y tu allan i’r cytundeb (y cyfeiriwyd ato’n amrywiol fel ‘gosodiadau rheoli’, ‘trosglwyddiadau rheoli’ a ‘hawliau trosglwyddo’.) Mae nifer o’r ymatebion hyn yn cyfeirio at gwota 10% a gytunwyd ar gyfer y math hwn o osodiad, ond mae un ymateb yn sôn am gwota 5% ac un arall yn dweud nad oes terfyn ar y math yma o osodiad.

Wrth edrych ar yr ardaloedd sylw, gellir cael gwybodaeth ychwanegol am y gydberthynas bosibl rhwng lefelau uwch o enwebiadau a chyfraddau dyrannu uwch i aelwydydd digartref. Er enghraifft, dywedodd cydweithwyr yng Nghaerdydd eu bod ar adegau wedi sicrhau cyfradd ddyrannu o 100% i aelwydydd digartref (er fod data 21/22 yr oedd yr ymchwil hwn yn seiliedig arno yn dangos 60%, sy’n dal i fod y gyfradd ddyrannu uchaf ar draws yr ardaloedd sylw a arolygwyd).

Roedd rhai dulliau strategol a gweithredol ar waith yng Nghaerdydd sy’n ymddangos i ddangos eu llwyddiant wrth gyflawni lefelau uchel o ddyrannu i aelwydydd digartref, yn cynnwys:

- Partneriaethau cryf (yn amlwg yn ystod y grŵp ffocws) ar draws LCC a’r awdurdod lleol
- Cymryd rhan yn y gofrestr tai gyffredin
- Math neilltuol o system bandio, a defnyddio ‘pyrth’ digartref
- Cytundebau ar draws y bartneriaeth i ymateb yn hyblyg i gyfnodau angen uchel drwy weithredu cyfnod enwebiadau 100% ond yna yn dychwelyd i lefelau is a gytunwyd unwaith y bydd y cyfnod drosodd.

Y mae wrth gwrs ffactorau daearyddol a demograffig neilltuol i roi ystyriaeth iddynt yng Nghaerdydd, nid yn lleiaf mai hi yw prifddinas Cymru, a hi sydd â’r boblogaeth fwyaf o fyfyrwyr yn y wlad. Fodd bynnag, gallai ystyriaethau manwl pellach o’u dull gweithredu (yn neilltuol o amgylch y lefelau enwebiadau hyblyg, a’r bandio a systemau porth a ddefnyddiwyd) ddwyn ffrwyth wrth ddatblygu unrhyw syniadau ar ddulliau Cymru-gyfan cyson at ddyrannu.

## Prosesau a pholisïau lleol

Yn eu sgwrs ardal sylw, soniodd cydweithwyr yn Sir Gaerfyrddin yn arbennig pa mor hanfodol fu cefnogaeth wleidyddol leol i’w newid blaengar diweddar mewn polisi dyraniadau. Maent wedi sicrhau newid enfawr o fewn llai na blwyddyn.

Yn wahanol i hyn, mae data yr arolwg dienw yn dangos gwahanol brofiadau mewn rhannau eraill o Gymru. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd:

> ‘Mae barn wleidyddol (h.y. gan gynghorwyr) yn **rhwystr i newid** mewn polisi.’

Dywedodd un arall:

> ‘Mae **cysylltiad lleol yn ystyriaeth fawr i wleidyddion.** Byddai cyfarwyddyd cliriach ar bolisi dyrannu a deddfwriaeth ar gyfer y digartref yn golygu na fyddai unrhyw le ar gyfer y cwestiwn “pwy sy’n haeddu a phwy sydd ddim” ... **ysywaeth, mae stigma yn dal i fod ar ddigartrefedd – yn aml yn gysylltiedig gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, tenantiaid gwael, ôl-ddyledion rhent, troseddeg a phroblemau iechyd meddwl.’**

Mae hefyd fater sut y gweithredir meini prawf cysylltiad lleol, yn dibynnu ar statws aelwyd (oherwydd y liferau deddfwriaethol a gaiff eu sbarduno pan ddaw rhai ddyletswyddau ar waith) fel y nodwyd yn y ddau ymateb hyn i’r arolwg Cymru-gyfan:

> ‘Mae **cysylltiad lleol (5 mlynedd) yn rhwystr,** nes eu bod yn gweithio eu ffordd drwy’r system digartrefedd i adran 75.’

Ac:

> ‘Mae **cysylltiad lleol bob amser yn sensitif gan fod gennym ofyniad 5 mlynedd ar gyfer tai cymdeithasol, ac eto gall y rhai gyda dyletswydd digartrefedd osgoi hyn,** a gallai hynny ymddangos yn annheg. Rydym eisoes wedi rhoi blaenoriaeth ac yn gosod pobl ddigartref mewn band cymwys, gan bennaf.’

Yn ogystal â gwneud polisi lleol yn ddarostyngedig i’r broses wleidyddol leol, mae hefyd yn cynnwys negodi rhwng yr awdurdod lleol ac LCC ar y ffactorau y rhoddir ystyriaeth iddynt pan gaiff aelwyd ei pharu gydag eiddo. Gall hyn gael ei ‘bobi’ yn y polisi dyraniadau a gytunwyd, neu a ystyrir yn eithriadol, a’i drafod drwy bolisïau gosodiadau lleol, ystyriaethau gosod sensitif neu gwotâu trosglwyddo rheoli. Bydd gan LCC wedyn eu prosesau a’u systemau eu hunain ar gyfer rheoli’r paru eithriadol.

Yn ystod y grwpiau ffocws a gynhaliwyd, siaradodd cyfranogwyr fod ystyriaeth yn ystod y broses ddyrannu i ffactorau tebyg i ôl-ddyledion cyn denantiaid, hanes blaenorol o ymddygiad gwrthgymdeithasol a hanes unigolyn o gamddefnyddio sylweddau. Cafodd yr ystyriaethau hyn eu trafod yn agored, a deallwyd eu bod yn rhan o’r prosesau sy’n gweithredu’n lleol. Fodd bynnag, yn yr arolwg dienw, dangosodd rhai ymatebion fod y ffactorau hyn yn cyflwyno rhwystr i ddyraniadau, ac awgrymwyd y cânt weithiau yn gweithredu mewn modd anghyson:

> ‘**Ôl-ddyledion cyn-denantiaid – asesiad anghyson** o ôl-ddyledion blaenorol yn gymwys yn seiliedig ar ôl-ddyledion mawr ac eraill gydag ôl-ddyledion llai yn cael eu gwneud yn anghymwys. **Hanes troseddu –** cafodd rhai ymgeiswyr eu gwneud yn anghymwys oherwydd mân droseddau gyda dull gweithredu anghyson. Weithiau ni chaiff adolygiadau ar achosion anghymwys eu cynnal am 12 mis, y rheswm am hyn yw bod yr LCC yn dymuno dangos gallu i reoli tenantiaeth, pwy bynnag sy’n rheoli llety dros dro. Ni chafodd rhai ymgeiswyr gynnig eiddo penodol oherwydd bod **costau cyfleustod yn ei gwneud yn anfforddiadwy.** Os oes angen gwaith addasu, dim ond i eiddo sydd wedi ei addasu’n barod y bydd LCC yn dyrannu. Dewis a dethol y gorau, mae’r rhifau presennol mewn llety dros dro yn galluogi cronfa ehangach o ymgeiswyr.’

Dywedodd un ymateb awdurdod lleol i’r arolwg dienw:

> ‘Er bod llawer o gydymffurfiaeth gyda LCC partner ar y rhestr aros gyffredin, mae meysydd yn dal i fod lle na chaiff ein dulliau tai eu halinio’n llawn. Er enghraifft, mae gwahaniaethau bach mewn cyfyngiadau meini prawf rhwng rhai LCC a’r Cyngor e.e. **uchafswm lefelau meddiannaeth ar gyfer mathau penodol o eiddo.’**

Dywedodd un arall:

> ‘Gall **polisïau gosod lleol** fynd ar draws pethau. Gall **hanes o ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol** eu rhoi mewn band dim-blaenoriaeth lle na fyddent yn cael dyraniad.’

A dywedodd un arall:

> ‘Nid yw’r **gofyniad i ymgeisydd ddangos eu bod yn barod am denantiaeth** a’r amser a dreuliwyd mewn llety dros dro bob amser yn cyfrif fel tystiolaeth ar gyfer hyn. Mae disgwyliadau afrealistig ar ran LCC yng nghyswllt hanes ymgeisydd. Mae angen llacio **polisïau ar anifeiliaid anwes** i fod yn fwy realistig.”

Mewn ychydig o’r ymatebion data i’r arolwg dienw Cymru-gyfan gan awdurdodau lleol, mynegwyd barn gref ar faint o ddisgresiwn sydd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sut y maent yn gweithredu’r disgresiwn hynny, er enghraifft:

> ‘**Gall prinder dyraniadau drwy’r broses ddyrannu alluogi dewis y gorau** a dim o reidrwydd yn dyrannu i’r rhai sydd fwyaf mewn angen. Mae’r broses weithredol gyfan yn amrywio ar gyfer pob LCC felly mae’n anodd i ymgeiswyr.’

Ac:

> ‘Amharodrwydd rhai sefydliadau partner i gyflawni eu hoblygiadau i’r cartref yng nghyswllt llety dros dro a chyflawni dyletswydd. **Amharodrwydd i ddyrannu i**

**ymgeiswyr digartref/heriol ar sail tenantiaeth ddiogel.** Gall hyn arwain at raniad rhwng anheddau cyngor ac anheddau LCC gyda'r awdurdod lleol yn cartrefu'r mwyafrif.'

Gall yr ystod gwahaniaethau mewn proses leol oherwydd disgresiwn gwleidyddol, trafodaethau partneriaeth a gwneud polisi lleol gael effaith sylweddol ar sut mae prosesau dyrannu yn gweithredu ar lawr gwlad. Mae llawer o bwyntiau yn y 'daith ddyrannu' lle mae gan bolisïau lleol yr hyblygrwydd i wahaniaethu yn ôl ardal ac mae effaith y gwahaniaethau hynny, yn gronnus, yn debyg o fod yn sylweddol. Nid yw'n bosibl o gwmpas yr ymchwil hwn i ddweud os yw'r effeithiau hynny yn gadarnhaol, negyddol neu niwtral yn nhermau cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref, ond gallai mapio manwl pellach ddangos sut mae pob pwynt gweithredu yn y daith yn effeithio ar gyfraddau dyrannu yn gyffredinol.

# CYFRADDAU DYRANNU I AELWYDYDD DIGARTREF

O gofio am yr amrywiadau lleol sylweddol mewn dulliau gweithredu, mae'n anodd iawn bod yn fanwl wrth nodi meysydd cydberthynas posibl rhwng y dulliau gweithredu a chyfraddau dyrannu.

Mae hefyd yn bwysig rhoi amodau ar y cyfraddau dyrannu sy'n ymddangos yn y darnau ar ardaloedd sylw yn Atodiad 1. Nid oedd cwmpas a chyfyngiadau amser yr ymchwil hwn yn ei gwneud yn bosibl craffu ar y data ar y lefel o asesu'r manylebau technegol sy'n llywio ei alldynnu o system technoleg gwybodaeth pob sefydliad, pa gategorïau o aelwyd oedd wedi eu cynnwys a'r rhai nad oedd wedi eu cynnwys a sut y caiff aelwydydd eu rhoi mewn categori o fewn y system honno yn y lle cyntaf. Dim ond y lefel hon o graffu manwl fyddai'n galluogi gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng cyfradd ddyrannu pob ardal.

Gyda'r amod honno dan sylw, mae'n dal yn ddiddorol nodi fod cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref ar draws yr ardaloedd sylw yn amrywio rhwng 23% a 60%[1].

Amlinellodd y cyfranogwyr lawer o resymau pam fod cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref yn is na 100%, ac mewn rhai achosion yn sylweddol is. Caiff y rhain eu cyfach drwy'r holl adroddiad hwn, a maent yn cynnwys:

- Y diffyg cyfatebiaeth rhwng y cyflenwad a'r galw o stoc tai sydd ar gael, yn arbennig gosodiadau 1 ystafell wely ac anheddau mwy;
- Rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol (yn cynnwys iechyd, cysylltiadau teuluol a hanes trawma) yng nghyswllt y math o eiddo sydd ar gael, ei lleoliad a'r gymuned leol;
- Yr angen i roi ystyriaeth i bolisïau lleol sy'n effeithio ar y gallu i baru ymgeisydd ac eiddo (o reolau am gysylltiad lleol, i ystyried ôl-ddyledion cyn denantiaid);
- Ystyried os bydd gwasanaethau cymorth ar gael i sicrhau y gall tenant gynnal y denantiaeth os caiff ei rhoi.

Yn yr ymchwiliad ansoddol o rwystrau a heriau yn yr ardaloedd sylw, nid oedd unrhyw gydberthynas amlwg rhwng yr ardaloedd hynny gyda lefel dyrannu neilltuol o isel, a sylwebaeth gysylltiedig ar 'anghysbell' neu 'anarferol' am rwystrau heriau allweddol a fedrai atal eu dyrannu i aelwydydd digartref. Er enghraifft, soniodd *pob* ardal sylw am brinder stoc tai 1 ystafell wely, yn

[1] Gofynnwyd am ddata o ardaloedd sylw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 (y flwyddyn ariannol lawn ddiwethaf y mae data ar gael ar ei chyfer) – gweler Atodiad 3, cwestiynau 3.2/3.3 a 4.2/4.3.

ogystal â rhestri aros cynyddol a mwy o bobl mewn llety dros dro, eto mae amrywiad enfawr yn dal i fod yn y cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref.

Mae’r darnau ar yr ardaloedd sylw yn Atodiad 1 yn dangos amgylchiadau neilltuol pob ardal yng nghyswllt eu prosesau dyrannu. Maent yn dangos amrywiaeth go iawn mewn ymagwedd a ffocws, o Sir Gaerfyrddin lle mae newid blaengar diweddar wedi dibynnu ar gefnogaeth wleidyddol leol, i Wrecsam sy’n amlygu heriau am ffosffadau a chymhareb galw vs cyflenwad o 20:1 ar gyfer stoc tai 1 ystafell wely, i Gastell-nedd Port Talbot lle nad oes cofrestr tai gyffredin i bartneriaid seilio eu sgyrsiau gweithredol a chryfhau partneriaethau o’i hamgylch.

Mae lefelau enwebu yn amrywio ym mhob ardal sylw. Er enghraifft, ar draws Partneriaeth SARTH, bu cytundeb enwebu 50% dros dro yn ei le ers 2020, sy’n awr yn cael ei adolygu. O fewn ardal Partneriaeth SARTH y gwelwn y gyfradd isaf o ddyraniadau i aelwydydd digartref (23%) wrth ddefnyddio data 2021/22. Mae Caerdydd yn gweithredu cwota hyblyg ar gyfer gosodiadau i grwpiau anghenion blaenoriaeth, ac ar adegau maent wedi cyrraedd dyraniadau 100% i aelwydydd digartref. Fodd bynnag, gyda sampl data mor fach nid yw’n bosibl tynnu llinell achosiaeth rhwng lefelau uwch o enwebiadau a lefelau uwch o ddyraniadau i aelwydydd digartref.

Gallai mwy o ymchwil ar bob un o’r ardaloedd sylw adeiladu’n fuddiol ar yr ymchwil ddechreuol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Gallai meysydd i’w hystyried gynnwys ymchwiliad manwl iawn ar:

- Y ffigurau sy’n cyfrannu at y cyfraddau dyrannu a adroddwyd ganddynt, gan edrych yn union sut maent yn ‘tynnu’ y data o’u systemau, sut maent yn categoreiddio ymgeiswyr y mae dyletswydd iddynt a chyfrannu y rheini i’r cyfrif data;
- Craffu dwys ar eu polisïau lleol o amgylch elfennau o’r broses ddyrannu (tebyg i sut maent yn trin ôl-ddyledion cyn-denantiaid, hanes ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anghenion cymorth yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau), sydd i gyd yn cyfrannu at i bwy y dyrennir eiddo  a phwy ddim;
- Mapio manwl ar y ‘daith ddyrannu o’r adeg y daw eiddo ar gael, i’r adeg y bydd aelwyd yn symud i fyw yno, gan amlygu ‘pwyntiau penderfynu’ ar y daith honno.

# CYFLENWAD A GALW

Gofynnodd Cwestiwn 9 o arolwg di-enw Cymru gyfan 'Beth yw'r prif rwystrau wrth ddyrannu tai i'r rhai sy'n ddigartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref?' (caniateid detholiad lluosog o atebion a benderfynwyd ymlaen llaw). Roedd llawer iawn o gysondeb yn y detholiadau a wnaed gan ymatebwyr, gyda'r mwyafrif helaeth (42/45) yn sôn am 'y cyflenwad o dai cymdeithasol' fel y prif rwystr. Ohonynt, *dim* ond am y rhwystr hwn y soniodd 4 amdanynt (heb wneud unrhyw ddetholiad ychwanegol). Soniodd 34 ymatebydd am 'proffil stoc', er na wnaeth dim ohonynt ei nodi fel yr *unig* rwystr.

Daeth themâu neilltuol i'r amlwg hefyd yn yr ymatebion geiriad rhydd a ganiatawyd dan y categori 'arall'. Soniwyd yn annibynnol am y rhwystrau dilynol, yn ymwneud â chyflenwad stoc, mewn ymatebion lluosog drwy'r gofod geiriad rhydd:

- Prinder eiddo 1 ystafell wely (soniodd 3 ymateb am y rhwystr hwn)
- Prinder eiddo mwy ar gyfer teuluoedd mawr (soniodd 3 ymateb am y rhwystr hwn)
- Prinder anheddau wedi eu haddasu (soniodd 2 am y rhwystr hwn)

Er fod nifer yr ymatebion ar gyfer pob math o rwystr yn isel, mae'r tebygrwydd yn ddiddorol gan nad oedd unrhyw beth i'w hysgogi ac roedd unigolion yn rhydd i ysgrifennu beth bynnag a ddymunent.

Fe wnaeth nifer o ymatebion geiriad rhydd i Gwestiwn 7 o'r arolwg Cymru-gyfan ('I ba fath o aelwyd/unigolyn ydych chi'n dyrannu tai amlaf?') hefyd ddangos y pwynt am ddiffyg anheddau 1 ystafell wely. Er enghraifft, yr ymateb dilynol:

> 'Wrth ystyried y cohort digartref (bron 200 o aelwydydd mewn llety dros dro ac argyfwng) roedd aelwydydd 1 ystafell wely yn ffurfio 84%, felly **mae gosod 50% yn uniongyrchol i'r digartref (yr amrywiad polisi cyfredol) yn her sylweddol oherwydd y gwahaniaeth rhwng y cartrefi sydd ar gael a'r proffil galw lleol.'**

Cafodd mater diffyg anheddau 1 ystafell wely anghenion cyffredinol hefyd ei godi yn y grwpiau ffocws a sgyrsiau un i un ar draws bron bob un o'r ardaloedd sylw. Mewn rhai ardaloedd roedd yn bosibl canfod o'r data yn fras beth fyddai cymhareb galw i gyflenwad. Er enghraifft, mae data ardal sylw Wrecsam[2] yn dangos fod y galw am anheddau 1 ystafell wely yn fwy na'r cyflenwad gan 20:1.

[2] Gwiriwyd a dilyswyd gyda'r cydweithwyr perthnasol mewn awdurdodau lleol, yn defnyddio data 2022/23

Roedd nerth y teimlad am y diffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw yn amlwg mewn ymatebion i'r cwestiwn olaf yn yr arolwg Cymru-gyfan (Cwestiwn 13), gyda dau ymateb yn neilltuol yn amlygu effaith y mater yng nghyd-destun ehangach tai cymdeithasol yng Nghymru:

> 'Mae prinder cartrefi ar gyfer aelwydydd. Rydym angen mwy o gartrefi ar rent cymdeithasol a mwy o gartrefi fforddiadwy i adael rhent cymdeithasol ar gyfer y rhai mewn mwyaf o angen. **Mae'r math stoc yn hollbwysig gan ei bod yn dod yn gynyddol anodd cartrefu teuluoedd mwy a phobl sengl iau** gan mai cyflenwad cyfyngedig iawn o'r mathau hyn o gartrefi sydd ar gael ac mae'n anos cynyddu cyflenwad oherwydd problemau cynllunio a hyfywedd.'

> '**Mae'r galw am dai yn fwy na'r cyflenwad flwyddyn ar flwyddyn. Mae'r galw yn dal i gynyddu tra bod eiddo newydd yn cael eu datblygu.** Dylid ystyried defnyddio adnodd gwerthfawr tai cymdeithasol mewn ffordd wahanol. Ai dim ond gan y rhai sydd mewn angen brys y dylem ni dderbyn ceisiadau? A ddylem eithrio'r rhai a all fforddio prynu eu cartrefi eu hunain? Mae disgwyliadau pobl sy'n cofrestru am dai yn anhylaw – yn arbennig pan fo cyflenwad mor gyfyngedig. Byddai'n neges rwyddach ei chyflwyno pe byddai opsiynau tai eraill ar gael a fedrai fod yn union mor effeithlon. Yn anffodus mae'r sector rhent preifat yn anodd ei sicrhau oherwydd y rhenti eithriadol o uchel ym mhob ardal a'r cyfraddau isel iawn o lwfans tai lleol sydd ar gael. Mae hyn hefyd yn ei gwneud yn anodd cael landlordiaid i weithio gyda'r awdurdod lleol gan y gallant gael mwy o arian o'r farchnad agored.'

Pan ofynnwyd iddynt beth yw'r sbardun pwysicaf wrth benderfynu i bwy y maent yn dyrannu tai, dywedodd ymatebwyr mai digartrefedd yw'r sbardun allweddol ym mwyafrif yr achosion (23/45 ymateb). Fodd bynnag, fe wnaeth llawer o'r atebion geiriad rhydd hefyd sôn am y cyflenwad stoc fel rhwystr mawr i ddarparu ar y sbardun blaenoriaeth yma. Er enghraifft, dywedodd un ymatebydd:

> 'Mae ein polisi gosod seiliedig ar ddewis yn seiliedig ar angen tai, felly ar hyn o bryd y prif sbardun yw trin digartrefedd. Fodd bynnag, **oherwydd y stoc tai cyfyngedig iawn sydd ar gael, mae ailgartrefu yn araf a disymud,** gyda llawer o unigolion mewn llety dros dro am dros 18 mis.'

Ysgrifennodd un arall:

> 'Ein sbardun yw ailgartrefu'r rhai sydd mewn mwyaf o angen fel y dynodwyd yn y cod arweiniad. Mae'r rhain fel arfer yn ymgeiswyr digartref y mae dyletswydd digartrefedd iddynt ond maent hefyd yn ymgeiswyr sy'n byw mewn llety â chymorth gan y byddai ei symud yn cynorthwyo unigolion digartref i symud i lety â chymorth. **Mae'r ffocws ar**

**ddyrannu cartrefi i'r nifer cynyddol o aelwydydd sy'n dod yn ddigartref. Fodd bynnag mae'r stoc sydd ar gael yn yr ardaloedd lle mae eu hangen yn her.'**

Mae ymateb arall yn ei gwneud yn glir iawn y caiff gwneud penderfyniadau ei yrru gan fath stoc ac argaeledd:

> **'Y stoc tai sydd ar gael sy'n penderfynu i bwy yr ydym yn dyrannu** h.y. pobl sengl neu deulu. Yn y rhan fwyaf o achosion rydym ar hyn o bryd yn ceisio dyrannu ein cartrefi gwag i ymgeiswyr digartref os na fydd eiddo yn addas oherwydd ei fod yn osodiad sensitif'.

Mae'r sylwadau hyn yn dangos thema sylweddol ym mhob rhan o'r ymchwil yma: sef er efallai mai sbardun yw cartrefu aelwydydd digartref, mewn system gyda stoc cyfyngedig a chymaint o alw, caiff y gallu i ymateb yn effeithlon i'r 'sbardun' ei leihau yn ddifrifol.

## PWY SY'N CAEL EU CARTREFU, OS NAD AELWYDYDD DIGARTREF?

Daeth cymhlethdod sylweddol i'r amlwg mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Soniodd cyfranogwyr yn bennaf am y ffaith y gall unigolion fod â lefelau uchel o angen p'un ai oes dyletswydd digartrefedd iddynt ai peidio, a bod swyddogion tai felly yn rhoi ystyriaeth i'r cydbwysedd angen ar draws eu rhestri aros, gan ystyried hefyd y dylid rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd â dyletswydd iddynt yn unol â pholisïau lleol.

Mae'r cynnydd mewn cymhlethdod yn deillio o'r ffaith mai nifer gyfyngedig iawn o anheddau gwag sydd ar gael, a phan ddaw eiddo ar gael, mae'n rhaid ystyried ystod cyfan o ffactorau o ran ei addasrwydd ar gyfer unigolyn neu aelwyd ar y rhestr aros. Mae hyn nid yn unig yn ymwneud â'r eiddo ei hun (nifer yr ystafelloedd gwely, p'un ai os oes ganddo stepiau i'r fynedfa, ar ba lawr adeilad y mae, p'un a yw'n hygyrch yn fewnol a ffactorau eraill) ond mae hefyd yn ymwneud ag ystyriaethau y gymuned yn ehangach, blociau fflatiau, safle datblygu neu hyd yn oed yr ardal leol y mae ynddo.

Cafodd y rhyngweithio rhwng amgylchiadau neilltuol a'r eiddo sydd ar gael ei ddangos gan un a gymerodd ran mewn grŵp ffocws, a siaradodd am angen rhywun yng nghyswllt yr ardal lle gallent gael eu cartrefu:

> "Mae gennym eiddo mewn ardal lle mae llawer o weithgaredd llinellau cyffuriau felly yn amlwg nid ydym eisiau i rywun gyda hanes o ddefnyddio cyffuriau trwm i fynd i'r eiddo yma, gan y byddai'n sbardun iddyn nhw Felly **rydyn ni'n mynd drwy'r rhestr drosodd a thro, er mwyn ceisio cael y person cywir i'r eiddo** (gofyn am eirda gan dair adran wahanol ... galw'r adrannau i holi am y person) oherwydd na fedrwn weld yr wybodaeth lawn ar y system a gaiff ei rhannu, tebyg i wybodaeth am ddefnyddio cyffuriau.'

Yn sgyrsiau'r grŵp ffocws, siaradodd y rhai a gymerodd ran am y lefelau sylweddol o angen ymysg pobl yn aros i gael eu cartrefu, p'un os oedd gan yr awdurdod lleol ddyletswydd iddynt ai peidio. Soniodd llawer bod gorlenwi a rhannu cyfleusterau yn broblemau neilltuol, gyda theimlad fod gorlenwi yn cynyddu:

> 'Mae gennym bobl ar ein cofrestr sydd angen tai (dim ond os oes gennych angen tai wedi ei ddynodi yr ydych yno). **Mae gorlenwi wedi bod yn un o'r problemau mwyaf ers Covid –** mae tua 300-400 o bobl ar y gofrestr bresennol mewn cartrefi gorlawn. **Gallai unrhyw un ohonynt gyflwyno fel bod yn ddigartref ar unrhyw adeg.** Ond dim ond am bobl sy'n 'agored i'r tîm digartrefedd' yr ydyn ni'n siarad yn awr. Nid oes gan yr holl bobl eraill yma unrhyw le i fynd.'

Soniwyd hefyd bod yr angen i bobl symud ymlaen o lety â chymorth neu gyfleusterau lloches yn bwysau ar yr anheddau sydd ar gael, nad ydynt wedyn ar gael ar gyfer anheddau i'r rhai sy'n ddigartref.

Dywedwyd hefyd fod gan bobl anghenion meddygol neu iechyd sylweddol, neu resymau llesiant ehangach sy'n golygu fod ganddynt angen mawr i gael eu cartrefu, hyd yn oed er efallai nad ydynt yn 'ddigartref' ar y pryd.

Pryd bynnag y gwneir dyraniad, mae swyddogion tai yn cydweithio i gydbwyso anghenion unigol, amgylchiadau, hawliau, dymuniadau a dewisiadau o gymharu â'r stoc sydd ar gael, lleoliad ac addasrwydd. Maent hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r 'llif' drwy'r system a ph'un ai a fydd eu dyraniad yn rhyddhau eiddo gwag arall, i greu cyfle arall i aelwyd arall eto i gael eu cartrefu.

Mae'r enghraifft ddilynol, gan un o'r grwpiau ffocws, yn dangos pam y gallai tenant presennol gael ei gartrefu pan ddaw eiddo yn wag, er y gallai fod yna aelwydydd digartref ar y rhestr aros:

> 'Roedd gennym unigolyn oedd yn arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol a lefelau uchel o ôl-ddyledion. Roedd yr heddlu yno byth a hefyd, ac roeddem yn gorfod talu i gael swyddogion diogelwch. Bu'n rhaid i ni edrych ar ei droi allan, ond cafodd hynny ei dynnu mewn ar y dydd oherwydd na allwn droi pobl allan i fod yn ddigartref. Roedd y cymdogion wedi cymryd atynt ac roedd ein tîm yn gorfod delio gyda llawer o gwynion. Fedren ni ddim gweld datrysiad. Felly mae eiddo yn dod lan, a gallwn weld y byddai **caniatáu trosglwyddo rheoli ar gyfer y tenant presennol yma yn llacio'r pwysau ar y gymuned.** Nid yw'n ateb delfrydol gan y gallai'r eiddo fod mewn ardal lle mae llawer o alw, ac mae person arall ar y rhestr aros sydd yn y sector rhent preifat ac mewn risg uchel. Ond **rydyn ni hefyd yn gwybod ein bod yn rhyddhau eiddo presennol drwy reoli trosglwyddo. Felly rydyn ni'n datrys dwy broblem ar unwaith** (gwell cydlyniaeth gymunedol a rhyddhau eiddo) pan fyddwn ni'n cartrefu'r tenant presennol yma yn hytrach na rhywun o'r rhestr.

Pan ofynnwyd iddynt pwy maent yn gartrefu amlaf, ateb y rhan fwyaf o ddigon o'r arolwg Cymru-gyfan oedd 'teuluoedd'.[3] Yr atebion a nodwyd yn y ail oedd '55+ Oed' a 'Person sengl (dim risg uchel/anghenion cymhleth'[4]. Mae'n arwyddocaol nodi fod ymatebwyr yn yr ymatebion geiriad

[3] Roedd hyn yn gwestiwn gydag ymatebion lluosog wedi eu penderfynu ymlaen llaw, y gallai cyfranogwyr ddewis mwy nag un ymateb o'u plith. Dywedodd 32/45 ymateb 'teuluoedd', gyda 10 yn dewis *dim ond yr ymateb 'teulu' (heb wneud unrhyw ddetholiad arall ychwanegol).*

[4] Roedd 18 ymateb i'r ddau gategori yma

rhydd i'r cwestiwn yn dweud fod eu dyraniadau i'r grwpiau hyn yn aml yn cael eu gyrru gan y stoc sydd ar gael. Dywedodd un ymateb yn syml:

> 'Mae hyn yn **gysylltiedig gyda'r proffil stoc tai cyfredol.'**

Dywedodd un arall:

> '**Mae tua 5% o'r holl dai cymdeithasol yn y sir ar gyfer pobl sengl dan 55 oed. Mae tua 32% o'r ymgeiswyr ar y gofrestr tai angen llety 1 ystafell wely anghenion cyffredinol.** Er fod hwn yn fater proffil stoc ac nid yn fater polisi, mae heriau'r galw am dai dwy ystafell wely ac effaith y dreth ystafelloedd gwely yn gwneud tanddefnyddio tai cymdeithasol yn her'.

Yng nghyswllt detholiad aml '55+ oed', mae'r atebion geiriad rhydd yn codi cwr y llen ar y ffaith y cafodd gwahanu stoc yn benodol ar gyfer y grŵp oedran hwn ar argaeledd gosodiadau, gan felly ostwng y gosodiadau i rai dan 55, na fedrir eu cartrefu yn yr eiddo hyn:

> '**Mae pobl hŷn yn tueddu i gael eu cartrefu yn llawer cyflymach** nag ymgeiswyr sengl eraill/cyplau (a thybio nad oes ganddynt broblemau symudedd sylweddol) gan fod **gorgyflenwad cymharol o dai ar gyfer pobl hŷn.** Ar ôl dweud hynny yn aml disgwyliadau pobl hŷn yw cael llety math byngalo gyda mynediad i erddi ac nid oes bob amser gyflenwad digonol ohonynt. Felly yn aml  pobl dros 55 oed (ein diffiniad o bobl hŷn) sy'n fodlon ac yn medru byw mewn fflatiau gaiff eu hailgartrefu gyflymaf.'

## Pwy sy'n 'ddigartref' a beth yw'r ffocws ar ataliaeth?

Fel rhan o'r sgwrs o amgylch pwy gaiff eu cartrefu, siaradodd rhai o'r cyfranogwyr am y llinell denau rhwng yr aelwydydd hynny y mae dyletswydd iddynt, a'r rhai sydd mewn risg o ddod yn ddigartref yn syth. Dywedodd un cyfranogwyr:

> '**Gallai unrhyw un ym Mand 1 yn sydyn gyflwyno fel bod yn ddigartref ...** Felly sut mae hynny'n gweithio? Os yw rhywun yn cyflwyno i'r tîm digartrefedd, os ydynt eisoes mewn eiddo, nid ydynt yn risg 'yn syth'. Ond beth yw *yn syth?* Mae'r Tîm Digartrefedd yn gwneud gwaith ataliol – os oes rhywun yn mynd i anawsterau ariannol wedyn fe fyddant yn gweithio gyda nhw. Ond dim ond am 56 diwrnod y bydd y Tîm Digartref yn cadw achos ar agor. Mae angen i'r canllawiau fod yn gliriach – pwy ddylai'r tîm digartref dderbyn? Pryd? Ar ba bwynt? Ydyn ni eisiau mwy o gyflwyniadau i ddigartrefedd? Ydyn ni'n ceisio atal hynny? **Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y polisi dyraniadau yn ffitio mewn gyda'r polisi digartref.'**

Ar y pwnc hwn, dywedodd un o'r ymatebion i arolwg Cymru-gyfan hefyd:

> **'Mae hefyd angen ymestyn dyletswyddau atal digartrefedd'** gan fod 56 diwrnod yn yr hinsawdd presennol yn llawer rhy fyr i gynnig datrysiad yn y rhan fwyaf o achosion.'

Soniodd ymateb arall i'r arolwg am waith lleol sy'n cael ei wneud i drin y mater hwn:

> 'Ar hyn o bryd caiff achosion a fygythir gyda digartrefedd flaenoriaeth ychwanegol ar y rhestr aros gyffredinol, ond nid ydynt yn cael eu rheoli drwy'r rhestr aros neilltuol ar gyfer y digartref. Gan ein bod ar hyn o bryd yn cynnig cyfran uchel o osodiadau i'r rhestr aros digartref, gall achosion tu allan i hyn gael eu diystyru o blaid ymgeiswyr digartref. **Sylweddolwn y gall hyn arwain at i achosion ddod yn ddigartref cyn i ni gael cyfle i atal digartrefedd drwy ddarparu llety arall**. Rydym yn adolygu'r system hon ar hyn o bryd ac yn gweithio i ddeall yr effaith y gallai ei gael ar symud yr achosion atal yma i'r rhestr aros digartref, ynghyd ag aelwydydd digartref.'

# BETH FEDRID EI WELLA?

Gofynnwyd i'r holl gyfranogwyr sut y teimlent y gellid gwella'r cyfraddau presennol o ddyraniadau i aelwydydd digartref (drwy arolwg Cymru-gyfan a hefyd yn ystod y grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un) ac os y credent mai deddfwriaeth, canllawiau neu wneud polisi fyddai yn ysgogi newid. Pan ofynnwyd sut y gallai pethau wella, daeth y themâu allweddol dilynol i'r amlwg ar draws yr holl setiau data:

- Cynyddu'r cyflenwad o stoc tai, yn arbennig unedau 1 ystafell wely
- Cefnogaeth i ymgeiswyr a thenantiaid
- Llai o ddisgresiwn i osod i aelwydydd heb fod yn ddigartref
- Digideiddo, ar gyfer yr ymgeisydd a hefyd rhwng sefydliadau
- Rheoli disgwyliadau am bwy y gellir yn realistig eu cartrefu

## Cynyddu cyflenwad y stoc tai

Awgrymodd nifer o gyfranogwyr fod gweithredu ar 'ochr gyflenwi' y broblem, drwy ddulliau blaengar i ddatblygu stoc tai newydd, yn faes pwysig i gael ei wella. Er y deallwyd fod hyn tu allan i gwmpas penodol y gwaith hwn, soniodd cyfranogwyr am y meysydd dilynol i gael eu hymchwilio ymhellach, fel rhan o'r grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un:

- Rhaglenni grant i wella neu addasu eiddo presennol fel y byddant yn dod yn addas i gael eu gosod, yn cynnwys addasu atigau, estyniadau, gan alluogi gorlenwi lle mae capasiti ar gyfer ehangu cartrefi;
- Cynlluniau 'defnydd arloesol' yn datblygu llety heb fod yn draddodiadol megis defnyddio cynwysyddion llongau, podiau a modurdai (a rhannu arfer da yn y dulliau hyn ar draws Cymru);
- Llacio'r manylebau am ba fath o dai y gellir eu gosod, gan gydnabod y gall unrhyw gartref, hyd yn oed os yw angen peth addasiadau, fod yn well na dim cartref.

Yn gyffredinol teimlai cyfranogwyr eu bod angen mwy o hyblygrwydd a buddsoddiad er mwyn mynd i'r afael ag ochr gyflenwi y broblem mewn ffyrdd newydd.

## Cymorth i ymgeiswyr a thenantiaid

Roedd mater cynyddu maint a chymhlethdod cymorth yn amlwg iawn yn yr arolwg a hefyd yn nata grwpiau ffocws. Y goblygiad (a gafodd weithiau ei nodi'n glir) oedd fod gan aelwydydd digartref fwy o anghenion cymorth, a'r rheiny'n rhai mwy cymhleth, nag aelwydydd heb fod yn ddigartref, ac os oes mwy o aelwydydd digartref i gael eu cartrefu, gan ddal i gynnal cymunedau cydlynol, mae'n rhaid cynyddu seilwaith cymorth i gyd-fynd â'r newid hwnnw.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol y gall LCC fod yn anfodlon gosod i aelwydydd gyda lefelau uchel o anghenion cymorth:

> 'Bydd Ailgartrefu Cyflym yn anodd i rai gydag anghenion cymhleth lluosog gan fod **ymgysylltu yn ddewis ac er bod cymorth cofleidiol ar gael, nid yw hyn bob amser yn plesio landlordiaid** a rhagwelwn y bydd llawer yn dal i fod yn amharod i gynnig tai i'r rhai nad ydynt yn ymwneud â chymorth, gan fod ganddynt fwy o denantiaid yn cronni ôl-ddyledion rhent neu'n arddangos ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol.'

Soniodd rhai LCC fod yn rhaid talu costau anghenion cymorth er mwyn cynnal tenantiaethau yn effeithlon:

> 'Dealltwriaeth a pharodrwydd ar ran yr awdurdod lleol i dderbyn fod yn **rhaid talu am anghenion cymorth.** Gallai hyn gefnogi llawer mwy drwy'r system Rheoli Tai Dwys (nad yw'n dod o'u cyllid eu hunain na chyllid Llywodraeth Cymru) ac mae yno i roi cymorth i denantiaid sydd mewn risg o beidio cynnal eu tenantiaeth a gellir ei weithredu ar gyfer mwyafrif y rhai sy'n dod trwodd fel bod yn ddigartref.'

Pan ofynnwyd iddynt yn yr arolwg Cymru-gyfan beth fedrid ei wella, soniodd 17/45 ymatebydd am 'cymorth' yn eu hatebion, gan gyfeirio at yr anghenion cymhleth sydd gan denantiaid, yr angen i roi cymorth i bobl i sefydlu a chynnal tenantiaeth a/neu yr angen i ymgysylltu gydag ystod ehangach o wasanaethau statudol. Soniodd pedwar ohonynt yn benodol am wasanaethau iechyd meddwl. Mae'r tri ymateb geiriad rhydd dilynol yn dangos y pwyntiau a wnaed ynghylch cymorth:

> '…Mae angen gwneud mwy i gryfhau'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i ymgeiswyr gydag anghenion cymhleth a **ffocws ar gryfhau a newid y cynnig llety dros dro** gyda chyllid ar gyfer llety dros dro ansawdd uchel lle gellir **ateb anghenion cymorth tra bod yr ymgeisydd yn aros am gynnig tŷ'**

> 'Anghenion cymorth yn cael eu dynodi'n gynnar, cefnogaeth briodol ac amserol pan fo angen (yn cynnwys cymorth iechyd/iechyd meddwl) a **chymorth i helpu cyfarch anghenion ariannol hanesyddol cyn dyraniad**.'

> '**Cynyddu'r cyflenwad o dai â chymorth ar gyfer aelwydydd digartref gydag anghenion cymhleth. Hefyd gynyddu'r cyllid Grant Tai Tai** fel y gellir gostwng amserau aros am gymorth tenantiaid a sylweddoli y bydd gan rai unigolion anghenion cymorth hirdymor er mwyn cynnal tenantiaeth.'

Ar hyd y grwpiau ffocws a'r sgyrsiau un i un, soniodd cyfranogwyr am yr angen i ymgysylltu gyda sectorau eraill (soniwyd yn neilltuol am iechyd a phlismona) er mwyn sicrhau'r cymorth angenrheidiol i feithrin tenantiaethau cynaliadwy effeithiol a chymunedau cydlynol:

> 'Gweithio partneriaeth cryfach yn gweithio gydag **asiantaethau statudol – dyletswydd i gydweithredu** gyda LCC ar gyfer asiantaethau tebyg i gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, iechyd, yr heddlu a gwasanaethau digartrefedd ar gyfer yr achosion anghenion mwyaf cymhleth.'

## Llai o ddisgresiwn a hyblygrwydd

Pan ofynnwyd am feysydd i'w gwella, awgrymodd llawer o ymatebwyr awdurdod lleol i arolwg di-enw Cymru gyfan y dylid rhoi llai o hyblygrwydd i LCC  benderfynu pwy maent yn eu cartrefu. Dywedodd rhai y gallai fod angen deddfwriaeth:

> '**Tynhau'r ddyletswydd ar LCC i helpu lliniaru digartrefedd** mewn rhyw ffordd yng nghyswllt llety dros dro a hefyd ddyraniadau. Mwy o bwyslais i LCC atal digartrefedd a bod ag agwedd sero % at droi allan. Os caiff Tai yn Gyntaf ei fabwysiadu'n llawn yna mae angen i hyn gael ei ymestyn i LCC yn ogystal ag awdurdodau lleol. Mae'n rhaid cyflwyno canlyniadau (yn arbennig gyda dileu digartrefedd bwriadol).'

> '**Mae angen mwy o bŵer a gorfodaeth o amgylch y ddyletswydd i gydweithredu o fewn deddfwriaeth ar LCC.'**

> '**Dyletswydd ar LCC** i gydweithredu gyda Gwasanaethau Digartrefedd. Tynhau cynigion rhesymol.'

> '**Dangosyddion Perfformiad Allweddol a thargedau ar gyfer LCC i letya aelwydydd digartref.** Gofyniad statudol i fabwysiadu protocol 'dim achosion troi allan i ddigartrefedd' i weithio mewn partneriaeth i helpu gydag achosion troi allan os ydynt yn digwydd .. mwy o hyblygrwydd ar gyfer gosodiadau uniongyrchol i LCC, mwy o atebolrwydd gan LCC i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda chyflenwad a galw i helpu atal a lliniaru digartrefedd. **Cyfyngiadau ar gynlluniau gosodiadau lleol a gosodiadau sensitif.'**

> 'Rhoi canllaw ar y **cwota gosodiadau i aelwydydd digartref i LCC** gydymffurfio gyda nhw fel isafswm.'

> '**Rheolau tynnach am bolisïau gosodiadau lleol a threfniadau gosod sensitif.'**

‘**Mwy o bwyslais ar ddyletswydd LCC** i gymryd eu cyfran deg o ymgeiswyr digartref – edrych ar gwotâu?’

Nid oedd rhai ymatebion yn cyfeirio at ddatrysiadau deddfwriaethol ond maent yn dal i awgrymu gostwng yr amrywiad mewn polisïau lleol:

‘**Mae angen mwy o gysondeb mewn polisïau yn neilltuol o amgylch meini prawf allgauedd** e.e. ôl-ddyledion cyn denantiaid.’

‘**Gostwng nifer yr LLP a gosodiadau sensitif** a mwy o fynediad i dai ar gyfer y rhai gydag anghenion cymhleth/lefelau dyled.’

Mae ymatebion arall i’r arolwg Cymru-gyfan yn awgrymu y gall fod angen peth gwelliant i sicrhau newidiadau i’r rheolau yn ymwneud â disgresiwn ar ‘gysylltiad lleol’:

‘**Dileu cysylltiad lleol ar gyfer pobl y bu ganddynt ddyletswydd digartrefedd llawn** (Adran 75) a dderbyniwyd ac a gafodd eu gosod mewn llety dros dro. Ar hyn o bryd gallai ymgeisydd digartref fod ym mand 2 nes byddant yn cyflawni’r rheol preswyliaeth pum mlynedd, gan felly ostwng y posibilrwydd y caiff tai cymdeithasol ei ddyrannu iddynt. Mae hyn wedyn yn rhoi pwyslais ar yr adran digartref i edrych am lety addas o fewn y sector preifat er mwyn cyflawni dyletswydd. Caiff cleientiaid digartref sydd wedi dioddef camdriniaeth eu gosod yn awtomatig yn y band brys a bernir fod ganddynt gysylltiad lleol llawn faint bynnag o amser y maent wedi ei dreulio yn yr awdurdod lleol.’

‘Mae gan ein polisi dyraniadau eisoes broses bandio sy’n rhoi cwsmeriaid digartref fel blaenoriaeth ar gyfer ailgartrefu, fodd bynnag mae meini prawf ar gysylltiadau lleol, cynlluniau gweithwyr lleol ac yn y blaen sy’n golygu **na fyddant bob amser yn cael blaenoriaeth ar gyfer rhai o’r gosodiadau –** yn bennaf anheddau LCC.’

Er y daeth yr ymatebion hyn i’r amlwg yn gryf yn yr arolwg dienw, roedd barn arall yn y grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un. Yn y lleoliadau hyn, roedd cyfranogwyr yn glir iawn yr ystyriwyd bod yr hyblygrwydd i baru’r person cywir gyda’r cartref cywir yn y lle cywir, gyda golwg ar yr ecosystem ehangach, yn hanfodol. Dywedodd un un cyfranogydd:

‘’Rydyn ni’n gweithio’n wirioneddol galed i baru rhywun. Fyddwn ni ddim ond yn paru rhywun gyda’r nifer o ystafelloedd. Fe fyddwn hefyd yn edrych ar eu holl anghenion eraill er mwyn sicrhau gosodiad cynaliadwy. **Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn paru ymgeiswyr yn briodol.’**

A dywedodd un arall:

> 'Mae'r gost bob dydd mae rhywun mewn llety dros dro yn enfawr. Rydyn ni'n gwybod y bydd yr awdurdod lleol eisiau cefnogi pobl allan o lety dros dro er mwyn cael pobl newydd i mewn, ond **gydag ychydig mwy o bwyll ac amser, efallai na fyddai'r un person hynny yn mynd yn ôl i gychwyn y cylch ond yn lle hynny yn cael ei gynnal.** Gall pobl weithiau gael eu cartrefu yn amhriodol, er enghraifft yn yr un ardal y cawsant eu hargyfwng ynddo. Mae hyn wedi andwyo bywydau rhai pobl. **Rydyn ni eisiau torri'r cylch a helpu pobl i dorri'r cylch hwnnw drwy eu rhoi yn y lle cywir.'**

## Digideiddio, ar gyfer yr ymgeisydd a hefyd rhwng sefydliadau

Pan ofynnwyd beth fedrai wella y system ddyrannu gyfredol, awgrymwyd digideiddio wrth gysylltu â chwsmeriaid mewn nifer o ymatebion i'r arolwg dienw ar ddigideiddio:

> '**Gwell data ar gyfer ymgeiswyr i egluro amserlenni ar gyfer ailgartrefu** i'w hannog i wneud penderfyniadau ar fath tai, daliadaeth a lleoliad ac yn y blaen.'

> 'Dylid gwella mynediad digidol i ymgeiswyr i **gofrestru/diweddaru eu gwybodaeth.'**

> 'Digideiddo y broses gais / **un pwynt mynediad** ar gyfer help tai.'

> '**Rheoli disgwyliadau cwsmeriaid** drwy ddatblygu platfform digidol sy'n helpu cwsmeriaid i ddeall os ydynt yn gymwys am dai cymdeithasol a pha mor hir y byddant yn aros am ddyraniad.'

Mae ymatebion eraill yn sôn am ddata yng nghyd-destun sut y gallai LCC ac awdurdodau lleol gydweithio fel partneriaid. Cyflwynir hyn yn nhermau mynediad i wybodaeth rheoli ar gyfer dibenion monitro a datblygu a hefyd yn nhermau mynediad i wybodaeth am ymgeiswyr ar gyfer dibenion gweithredol:

> 'Mae gennym **ddata rheolaidd** iawn (ar gyfer ein LCC ni ac LCC eraill) gan un awdurdod lleol, ond lai gan rai o'r awdurdodau lleol eraill sy'n bartneriaid i ni.'

> 'Mwy o wybodaeth yn cynnwys asesiadau risg nad ydyn ni'n eu cael ar hyn o bryd sy'n achosi risgiau i'n cydweithwyr sy'n ymweld yn 'ddall'. Gellid datrys hyn drwy i'r awdurdod lleol ein galluogi i gael **mynediad i'w system** yn yr un modd ag awdurdodau lleol eraill. Nid oes gennym fynediad i'w dwy system – mae angen newid eu systemau gan ei bod yn **mynd yn llawer iawn o amser** a gall gymryd hanner diwrnod i wneud rhestr fer ar gyfer un eiddo.'

‘Gellid gwneud mynediad i wybodaeth am ymgeiswyr digartref mewn llety â chymorth yn haws fel y gallwn **asesu os yw cynigion yn addas yn gyflymach.** Ar hyn o bryd rydyn ni’n gorfod cysylltu â’r cyngor i ofyn am y wybodaeth yma a gall hyn oedi’r broses gosodiadau.’

'…Nid yw’n **rhwydd i ni dderbyn ystadegau** am angen yn ein hardaloedd gweithredol.’

Yn y grwpiau ffocws a’r sgyrsiau un i un, daeth y thema hon nad oedd systemau digidol yn cefnogi prosesau rhannu partneriaeth o ddyrannu hefyd yn amlwg. Mewn rhai ardaloedd, siaradodd LCC am orfod gorfod cysylltu â nifer o adrannau o fewn awdurdodau lleol i gael gwybodaeth ddigonol am aelwyd er mwyn eu paru gydag eiddo addas.

Er nad yw’r awgrymiadau hyn yn tynnu llinell achosiaeth rhwng gwella rhyngweithiau digidol a dyrannu mwy o dai i aelwydydd digartref, maent yn dangos rhannau o’r system bresennol lle gallai enillion mewn effeithiolrwydd, tryloywder a chyfathrebu arwain at welliannau cyffredinol. Y mae, wrth gwrs, botensial i hyn gael effaith gadarnhaol ar systemau effeithol, cydlynus ac unedig ar draws awdurdodau lleol ac LCC, sy’n gyrru tuag at nodau cyffredin; er enghraifft, yr uchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd.

## Rheoli disgwyliadau am pwy sy’n realistig eu cartrefu

Roedd hon yn thema gref a ddeilliodd o’r data ansoddol a gasglwyd mewn grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un, ac roedd hefyd yn amlwg yn rhai o’r ymatebion ysgrifenedig i’r arolwg Cymru-gyfan.

Mae ymatebwyr yn ei egluro mewn ffyrdd ychydig yn wahanol, ond maent i gyd yn sôn am y ffaith os yw aelwydydd digartref i gael y flaenoriaeth uchaf, a bod lefel y galw gan y cohort hwn mor fawr (a chynyddol), yna o gofio y stoc cyfyngedig o dai cymdeithasol sydd ar gael yng Nghymru, a yw’n rhesymol meddwl ei bod yn realistig bod rhai mewn grwpiau cohort eraill yn cael eu cartrefu? Ac os na, a yw’n well gwneud hyn yn glir fel y caiff disgwyliadau ymgeiswyr eu rheoli?

Mae rhai o’r ymatebion yn nodi hyn yn nhermau cyfathrebu gyda phobl ar y rhestri aros am amserau aros:

‘**Nid oes gan lawer o ymgeiswyr gyda blaenoriaeth isel gyfle realistig** o gael eu cartrefu ac maent angen dewisiadau eraill tebyg i’r sector rhent preifat. Mae angen i’r Cyngor osod disgwyliadau realistig ar ymgeiswyr.’

Mae rhai yn awgrymu y gallai fod yn well cyfyngu mynediad i'r gofrestr:

> 'Mae llawer o wastraff yn y system wrth i bobl wneud cais am gartref a chael eu derbyn ar y gofrestr gyffredin pan nad oes ganddynt unrhyw angen tai ar unwaith. Byddai'n **fuddiol pe byddem yn gallu gwrthod ceisiadau gan bobl heb angen** cartref gan y gallai staff ganolbwyntio mwy o amser ar gefnogi pobl mewn angen.'

Mae eraill yn awgrymu newidiadau penodol i'r canllawiau:

> 'Mae hefyd yn anodd cyflawni **dymuniadau'r cyhoedd** gan nad oes cyflenwad digonol o eiddo cymdeithasol i ateb y galw. Credwn fod **angen diweddaru cod arweiniad y Llywodraeth ar osodiadau a digartrefedd** i adlewyrchu'r pwysau cynyddol sydd ar gofrestri tai, yn neilltuol yr her cynyddol o gartrefu'r digartref. Er bod y cod arweiniad yn trin **blaenoriaeth resymol a blaenoriaeth ychwanegol,** credir yn awr fod angen diweddaru a moderneiddio'r fframwaith.'

## Ffocws ar y tymor hirach

Mewn nifer o'r grwpiau ffocws a'r sgyrsiau, soniodd cyfranogwyr am eu pryderon am ymyrryd yn y tymor byr i ddelio gyda'r argyfwng tai cyfredol mewn ffordd nad yw'n rhoi ystyriaeth i'r tymor hirach.

I rai, roedd hyn am y ffaith y gallai ymyriadau deddfwriaethol neu ar yr ochr gyflenwi gymryd gormod o amser:

> 'A ddylai fod ymateb deddfwriaethol i hyn? **.... bydd yn hen erbyn y caiff y ddeddfwriaeth ei gweithredu!'**

> 'Mae'r rhaglen datblygu a chyflenwi yn ei chael yn anodd cadw fyny. Rydym wedi ein rhwymo gyda gwaddol 'ceisio cynnwys pawb' sef lle'r oedd polisi ychydig flynyddoedd yn ôl. Felly nid yw'r cynllun datblygu presennol yn medru cadw fyny ... nid ydynt yn ffocysu ar y rhai sydd yn yr angen mwyaf. **Ni fydd rhai o'r cynlluniau a ddatblygwyd nawr oedd yn gysyniad dair blynedd yn ôl yn addas ar gyfer y bobl yn yr angen mwyaf ...** math anghywir o eiddo yn yr ardal anghywir. Mae angen i ni ailaddasu'r rhaglen datblygu i gyflawni ein blaenoriaethau. **Bydd tair blynedd arall cyn y bydd y system yn ymateb. Mae bwlch.'**

I eraill, roedd am yr angen i werthfawrogi effeithiau hirdymor dyrannu tai mewn ffordd nad yw efallai â'r ffocws gorau oll ar anghenion yr aelwyd dan sylw:

> ‘A yw mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth i’r rhifau? Efallai ddim. Mae’n debyg y bydd y tenantiaethau hynny yn methu yn y 12 mis nesaf. **Mae’n edrych yn dda ar bapur yn y gêm rhifau. Ond faint o’r tenantiaethau sydd yn wir yn llwyddo am gyfnod o 12 mis neu fwy?** A allwn ni werthuso’r rhesymau dros ddod â’r tenantiaethau hynny i ben? Ai ymddygiad gwrthgymdeithasol neu rywbeth arall oedd y rheswm? Mae angen i ni ddadansoddi hynny yn agos.’

> ‘Fe fydden ni wirioneddol hoffi gwneud ychydig o waith hydredol i weld pa mor aml mae pobl yn dod yn ôl os cawsant eu symud ymlaen yn gyflym. **Rydyn ni eisiau gwybod beth yw’r gyfradd ‘drws troi’.** Mae’n amlwg yn broblem os oes cyfradd ailddigwydd o 80%. Os yw’n fwy fel cyfradd 2% yna mae pethau yn gweithio’n dda.’

Ac i rai, y ‘gofyn’ yw am eglurdeb am y weledigaeth hirdymor, fel y gall y sector fynd o amgylch y weledigaeth a gweithio tuag ati mewn ffordd gydlynol:

> ‘Pan fyddwn ni’n siarad am ddigartrefedd sut olwg sydd arno mewn gwirionedd? Dim ond siarad am bobl sydd wedi cael rhybudd ydyn ni. Mae hynny’n gadael llawer o bobl allan. **Mae’r diffiniadau yn hollbwysig ... mae angen i’r canllawiau fod yn gliriach –** pwy ddylai’r tîm digartrefedd eu derbyn, ar ba adeg? Ydyn ni eisiau mwy o gyflwyniadau i ddigartrefedd? Ydyn ni’n ceisio atal hynny? **Mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y polisi dyrannu yn gydnaws gyda’r polisi digartref ...** Mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gliriach am y neges – beth maen nhw’n ei olygu gan ‘digartref’ ac ‘ailgartrefu cyflym’? ... **Mae pawb yn ei ddehongli yn hollol wahanol. Dyma lle mae’r bylchau! Mae pawb yn meddwl eu bod yn mynd i wneud y pethau iawn ond maen nhw i gyd yn ei wneud yn wahanol’.**

# DEWIS

Roedd mater dewis yn ymdreiddio llawer o'r sgyrsiau a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil. Gan weithredu gyda chyflenwad cyfyngedig o stoc tai, a rhestri aros sy'n dangos bod y galw yn sylweddol uwch na'r cyflenwad, mae 'dewis' yn rhywbeth y mae swyddogion tai ar draws Cymru yn dal i geisio ei gynnig, ond maent yn ei chael yn gynyddol anodd darparu ar ei gyfer a'i weinyddu:

> 'Daliadaeth pan fo popeth arall wedi methu yw tai cymdeithasol ar hyn o bryd – ein huchelgais unwaith oedd iddo fod yn ddaliadaeth o ddewis – byddai pobl eisiau byw yno. Ond y **sefyllfa mewn gwirionedd yw os yw pobl mewn tai cymdeithasol nawr, mae hynny'n aml oherwydd nad oes ganddyn nhw unrhyw ddewis arall.'**

Crynhodd un o'r cyfranogwyr y tensiwn cynhenid rhwng ceisio dyrannu tai yn llwyr yn unol â'r ddeddfwriaeth o amgylch 'addasrwydd', tra hefyd yn ceisio cynnig dewis i gynyddu'r tebygrwydd y byddai'r gosodiad yn gynaliadwy:

> **'Mae addasrwydd yn syml o fewn deddfwriaeth digartrefedd: 'a yw'n ateb anghenion yn nhermau maint ac argaeledd?'** Mae swyddogion tai eisiau cynnig cymaint o ddewis ag y gallant, ond **y gwirionedd yw nad oes gan bobl mewn tai cymdeithasol yr un lefelau o ddewis,** ac nid oes gan bobl ar lefelau incwm isel yr un lefelau dewis. Maent yn ceisio gweithredu o fewn y realaeth honno. Pan ydyn ni'n meddwl am beth sy'n gwneud eiddo yn addas, rydyn ni'n meddwl am gysylltiad lleol, cyfleusterau, rhwydweithiau cymorth, mynedfeydd cymunol neu fynedfeydd eu hunain, lle tu allan a lle parcio ac yn y blaen – yr holl bethau sy'n effeithio ar gynaliadwyedd. Ond mae **swyddogion dewis tai yn gorfod gweithio o fewn paramedrau cyfyngedig iawn o'r hyn gaiff ei ystyried yn 'addas'** ac maen nhw'n gorfod ceisio cartrefu nifer enfawr o bobl sy'n dod drwy'r system. Felly caiff anghenion sylfaenol cysgod eu hateb gan hynny – gweithio o fewn y fframwaith ddeddfwriaethol a hefyd bod â'r gallu i arloesi ac ateb y dewisiadau ac anghenion ymgeiswyr.'

## Effaith dewis

Siaradodd rhai o'r cyfranogwyr am gynyddu dewis ar y pwynt dyrannu yn arwain at gynaliadwyedd tymor hirach, oherwydd fod pobl yn y pen draw eisiau dewis lle maent yn byw:

> '**Bydd pobl sydd mewn sefyllfaoedd gwirioneddol enbyd yn dal i fod eisiau dewis ble i fyw.** Mae'n anodd y bydd pobl yn cael llai o ddewis (pethau nad yw'n cael blaenoriaeth neu hyd yn oed hygrededd nawr dan y system newydd). Felly rydym wedi symud ychydig ar i

nôl yma, ond gallwn ddeall pam fod hynny yn digwydd – mae'n ein helpu i gyflawni dyletswydd. Ond cofiwch y **gallai hyn gael effaith tymor hirach ar gynaliadwyedd –** gallai pobl fod eisiau symud ymlaen yn eithaf cyflym o'r lle a ddyrannwyd iddynt (nid dim ond am resymau cymorth a datrys problemau nad yw tenantiaethau yn cael eu cynnal).

## Amrywiad lleol a maint dewis

Mae amrywiad rhwng awdurdodau lleol o ran faint o ddewis a gaiff aelwyd. Nododd un cyfranogwr:

> 'Mae rhai awdurdodau lleol yn eithaf hyblyg ar y nifer o ardaloedd y gall aelwydydd digartref yn neilltuol eu hystyried (neu am gyfnod penodol ac ar ôl hynny mae'n rhaid i chi ehangu i ardaloedd eraill). Nid yw hyn yn teimlo'n iawn ac mae'n debyg nad yw'n realistig yn nhermau diwallu anghenion pobl. **Mae'r dehongliad o'r hyn sy'n rhesymol yn nhermau dewis yn wahanol o un ardal i'r llall ... mae'n amrywio yn ôl awdurdod lleol.'**

Yni ardaloedd rhai awdurdodau lleol, caiff y rhai y mae dyletswydd iddynt yr un nifer o 'ddewisiadau ardal' ag eraill ar y rhestr aros, tebyg i'r ardal yr oedd y cyfranogwr yma yn siarad ohoni:

> 'Rydym yn rhoi [X] dewis ardal i ymgeiswyr ac fe'i wnawn rhag blaen, fel ein bod yn gwybod yn syth beth mae pobl ei angen a'i eisiau. Fel arfer rydyn ni'n medru diwallu anghenion – dim ond dau achos yn yr ychydig flynyddoedd ddiwethaf lle na chafodd anghenion pobl eu diwallu. **Doedden ni ddim eisiau gwahaniaethu yn erbyn pobl ddigartref – roedd angen i bawb oedd yn gwneud cais am restr i wneud [X] dewis.** Rydyn ni'n gwybod mwy am yr unigolyn ar y cychwyn – mae am daith y cwsmer a dewis y cwsmer.'

Ond mewn ardaloedd eraill cyfyngwyd ar ddewisiadau y rhai y mae dyletswydd iddynt. Credai rhai cyfranogwyr nad yw hyn yn teimlo'n iawn:

> '**Rydyn ni eisiau gweld pobl yn cael dewis hyd yn oed os ydyn nhw'n ddigartref – ni ddylai fod yn wir nad yw rhywun yn cael dewis ddim ond oherwydd eu bod nhw'n ddigartref.** Mae pobl yn deall y gall rhai ardaloedd fod yn anodd, a'u bod angen eu rhwydweithiau cymorth. Mae angen i bobl deimlo eu bod yn rheoli lle bydd eu cartref. **Mae dewis yn eich galluogi i feddwl am eich tŷ cartref, yn hytrach na fel rhywbeth dros dro.'**

Ond dywedodd eraill nad yw'n ymarferol cynnig cymaint o ddewis i aelwydydd digartref, er mwyn medru eu cartrefu:

> 'Mae dewis yn achosi anhawster i ni. Rydyn ni'n gweithio mewn system seiliedig ar anghenion lle mae'r cyflenwad yn gyfyngedig iawn. Rydyn ni'n galluogi pobl i ddewis ardaloedd. Gallant ddewis un ardal ond dim yn fwy penodol hynny (hynny yw, ni fedrant ddewis un stryd). Ond **mewn blaenoriaeth tai, rydyn ni'n gwthio'r ffiniau ar addasrwydd dyletswydd cyflawnwyr.** Pan fyddwn ni'n ystyried rhywun digartref, rydyn ni'n edrych ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn edrych ar incwm/gwariant ar gael plant i'r ysgol bob dydd ac yn y blaen. **Felly mae'n wasanaeth dwy haen .. ni fyddwch yn cael cynnig mor dda oherwydd y penderfyniadau y gallwn eu gwneud ... rydyn ni'n mynd â'r dewis oddi arnyn nhw oherwydd y gallwn wneud hynny yn y ddeddfwriaeth.** Ac mae amrywiad yn dal i fod ... mewn rhai ardaloedd gallwch ddewis rhwng tŷ a fflat ac mewn ardaloedd eraill does gennych chi ddim dewis ... mae dewis yn wirioneddol bwysig ar gyfer cynaliadwyedd ond mae hynny'n pylu'r llinellau. **Y rhesymau pam fod gennyn ni bolisi dyrannu yw i ddogni adnoddau oherwydd nad oes digon o dai – pe byddai yna ddigon o dai, fydden ni ddim angen polisi dyrannu. Mae dewis bob amser yn mynd i fod yn gyfyngedig'.**

Roedd pawb a gymerodd ran yn deall fod angen y system o awdurdodau lleol yn gwneud 'cynigion rhesymol' i aelwyd er mwyn cyflawni eu dyletswydd i'w cartrefu, ond teimlai rhai y gallai achosi problemau:

> 'Beth am ddewis? ... mae'r polisi yn dweud **os caiff rhywun ddau gynnig rhesymol yna y bydd y ddyletswydd iddynt yn dod i ben.** Ac maen nhw'n eithaf llym am hynny ... Mae hyn yn dda mewn rhai ffyrdd. O leiaf maen nhw'n gwybod ble maen nhw'n sefyll. Ond ... **beth sy'n cyfri fel 'rhesymol'? Ydych chi eisiau taro rhywun oddi ar y rhestr am nad ydyn nhw'n meddwl fod y cynnig yn rhesymol?** Os ydych yn gweithio gyda chleientiaid o amgylch y cynnig, rydych yn fwy tebygol o gynnal. Os oes rhywun yn meddwl bod eu cynnig yn rhesymol, oes ganddyn nhw fwy o modd o setlo mewn? **Nid yw gorfodi rhywun i leoliad neu eiddo neilltuol yn gynaliadwy.** Yn arbennig pan fod gan bobl anghenion go iawn. Mae'n debygol y bydd y tenantiaethau hyn yn methu o fewn y 12 mis nesaf. **Yn y gêm rhifau mae'n edrych yn dda ar bapur. Ond faint o'r tenantiaethau hynny sydd mewn gwirionedd yn llwyddo am gyfnod o 12 mis neu fwy?** A oedd yn ymddygiad gwrthgymdeithasol neu rywbeth arall? Mae angen i ni ddadansoddi hynny yn agos. Os ydym yn gwthio pobl i denantiaethau **mae angen i ni edrych yn hydredol ar y darlun cyflawn.** Mae'n creu unedau gwag ac yn costio arian i LCC ac yn y pen draw yn costio mwy o arian i'r system a fyddai'n well ei ddefnyddio mewn man arall.'

Siaradodd cyfranogwr arall am bragmatiaeth rhoi ystyriaeth i ddewis yng nghyswllt math ac argaeledd stoc.

> 'Rydym yn dyrannu yn seiliedig ar fath eiddo a maint eiddo. Ond mae gennym rai tenantiaid sy'n symud i gartref llai o dŷ tair ystafell wely, sy'n dweud eu bod eisiau tŷ dwy ystafell wely fel gall perthnasau aros, ond yn ôl y polisi dim ond un ystafell wely y dylent ei gael. A yw hynny'n creu rhwystr ar gyfer ein tenantiaid presennol er mwyn rhyddhau eu tŷ tair ystafell wely? **Mae'n rhaid i chi edrych arno yn holistig er mwyn i'r dyraniadau fod yn gynaliadwy.'**

Soniodd rhai cydweithwyr am y ffaith ei bod yn anochel fod cynnig dewis i bobl yn gostwng nifer yr opsiynau tai sydd ar gael iddynt, gan olygu ei bod yn cymryd mwy o amser iddynt gael eu cartrefu. Er enghraifft, dywedodd un cyfranogwr:

> 'Mae gosodiadau seiliedig ar ddewis wedi cael effaith niweidiol mewn rhyw ffordd. **Roedd rhai pobl oedd â dyletswydd digartrefedd iddynt ar y rhestr aros am oesoedd oherwydd eu bod yn aros am dŷ arbennig ar stryd arbennig.** Roedd llety dros dro yn mynd yn hollol lawn ac nid oedd dim symud o gwbl yn y system.'

A dywedodd un arall:

> '**Cafodd y polisi Ardaloedd Dewis effaith sylweddol ar ba mor gyflym y caiff llety ei ddyrannu i gleientiaid.** Ar hyn o bryd rydyn ni'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr digartref ddewis [X] ardal lle mae argaeledd uchel. Er bod hyn yn gadarnhaol wrth sicrhau bod gan unigolion ddewis priodol, **gall yn aml achosi oedi wrth i aelwyd symud ymlaen."**

## Rheoli dewis

Pan fo dewis wedi ei adeiladu i mewn ar y pwynt dyrannu, soniodd rhai cyfranogwyr am yr effaith y gall hynny ei gael ar 'wrthod':

> 'Mae gan systemau gosodiadau seiliedig ar ddewis **lefelau uchel o ymgysylltu gydag ymgeiswyr, felly mae lefelau gwrthod yn gymharol isel.** Mae gan ymgeiswyr fwy o ddewis yn eu math eiddo a lleoliad, a gallant weld canlyniad dyraniadau ar gyfer ymgeiswyr eraill.'

Cafodd rhai o'r rhesymau pam y medrid 'gwrthod' eiddo eu rhestru yn ystod yr ymchwil ac roeddent yn cynnwys y rhesymau dilynol (data geiriad rhydd a dynnwyd air am air o gronfa ddata LCC):

> 'Wrth edrych am resymau dros wrthod, mae'n bethau fel: ardal/lleoliad, rhestr aros heb fod yn gyfoes fel nad ydynt yn cael yr ymateb gan yr ymgeisydd, newid amgylchiadau, eu cartrefu mewn man arall, eiddo heb fod yn 'addas' (a all gynnwys cryn dipyn). Mae rhesymau hefyd yn cynnwys: cyfyngiadau MAPPA, eisiau lifft, eiddo'n rhy fach, dim gardd, dim eisiau cymdogion gwael, dim yn barod i symud, eisiau eiddo llawr daear, rhy bell i ffwrdd o berthnasau, sŵn o'r ffordd. **Mae'n glir fod blaenoriaethau uwch ar gyfer yr ymgeiswyr hynny na dim ond cael to dros eu pennau – mae lle yn wirioneddol bwysig.'**

Fodd bynnag dywedodd rhai pobl fod y ffordd y caiff y broses 'dewis' ei rheoli achosi problemau mewn nifer o ffyrdd ac nid yw mor syml â'r ymgeisydd yn annibynnol yn gweithredu eu dewisiadau mewn gwactod. Teimlai rhai cyfranogwyr y gellir hefyd lurgunio'r system:

> '…Mae'r LCC yn dewis pwy sy'n gymwys a phwy sydd ddim yn seiliedig ar feini prawf sy'n newid ac nad ydynt bob amser yn eglur. **Mae'n edrych fel eu bod nhw yn dewis a dethol y gorau. Dydyn nhw ddim yn cyfathrebu na rhoi meini prawf clir yn eu lle'.**

Teimlai eraill y gellir dweud wrth y cwsmer y gallant weithredu dewis, ond eu bod mewn gwirionedd yn cael eu llywio tuag at eiddo neilltuol:

> '…**Mae dewis yn cael ei gymryd oddi ar bobl mewn ymgais i symud pobl ymlaen. Mae pobl yn cael eu gwthio i wneud penderfyniad ac mae hynny'n rhoi cleientiaid dan bwysau.** Nid yw bod rhywun mewn tai cymdeithasol yn golygu fod ganddynt lai o ddewis na'r gweddill ohonom. Gallem ddweud fod dewis – ond **mewn gwirionedd a oes dewis wedi ei gynnwys yn y prosesau sy'n cael eu defnyddio?'**

Yn y ddwy enghraifft hyn roedd ymdeimlad nad oedd yr unigolyn neu'r aelwyd oedd angen eu cartrefi yn y 'sedd yrru'. Dywedodd cyfranogydd arall:

> 'Nid yw cleientiaid mewn gwirionedd yn gwybod beth sydd angen iddynt wybod nes daw'n amlwg fod rhywbeth wedi mynd o chwith. **Mae pobl angen tywysydd i ganfod eu ffordd drwy'r system.** A fedrwn gael rhyw fath o gymorth y gallwch gysylltu ymgeisydd gydag ef?"

A dywedodd un arall:

> '**Nid yw'r fformat rhestr aros draddodiadol bob amser yn galluogi ymgeiswyr i wneud dewisiadau gwybodus.** Rydyn ni angen gwell data ar gyfer ymgeiswyr i egluro amserlenni ar gyfer ailgartrefu i'w hannog i wneud penderfyniadau ar fath o dŷ, daliadaeth a lleoliad ac

> yn y blaen. Gall rhai cynlluniau bandio blaenoriaeth achosi dryswch i ymgeiswyr ar wahanol adegau yn y cylch hysbysebu (h.y. newid sefyllfa ar y rhestr fer).

Yn y pen draw, mae hyn yn dod lawr i reolaeth a dywedodd un cyfranogydd:

> ‘Yr awdurdod lleol sy’n rheoli pethau ar hyn o bryd. **Ychydig iawn o reolaeth sydd gan yr ymgeisydd** oherwydd rydych chi’n mynd ar restr ac yna yn aros a phan ddywedir wrthych fod yr eiddo yn barod, dywedir wrthych lle mae ... os nad ydych yn ei hoffi mae gennych ddau gynnig arall ac yna rydych oddi ar y rhestr. Mae’r holl reolaeth bersonol wedi mynd a dydi hyn ddim yn gysurus. **Mae dewis pobl yn cael ei dynnu oddi arnynt drwy’r amser.’**

Yn olaf, siaradodd rhai cyfranogwyr am y ffaith y gall fod angen cyfyngu dewis yn y tymor byr er mynd drwy’r argyfwng presennol, ac yna ddychwelyd i system sydd wedi ei seilio yn fwy ar ddewis yn y tymor hirach:

> ‘Dros gyfnod fe hoffem ni symud yn ôl i osodiadau seiliedig ar ddewis, ond y gwir ydi nad ydi hynny yn bosibl ar hyn o bryd. **Mae angen cadw’r ddysgl yn wastad.’**

# RISGIAU DYRANNU MWY O DAI I AELWYDYDD DIGARTREF

Pan ofynnwyd pa risgiau a/neu effeithiau negyddol fedrai fod i ddyrannu mwy o dai i aelwydydd digartref, daeth tair thema glir i'r amlwg o'r holl setiau data:

1. Creu cymhellion gwrthnysig i bobl gyflwyno fel 'digartref'
2. Adeiladu cymunedau llai cydlynol
3. Tarfu ar y 'llif' drwy dai cymdeithasol

Gofynnodd yr arolwg Cymru-gyfan yn benodol i gyfranogwyr: 'Pe byddai dyraniadau i aelwydydd digartref neu'r rhai mewn risg o ddod yn ddigartref yn cynyddu, beth fyddai'r prif effeithiau negyddol?' Daeth llawer o'r data ansoddol naratif cyfoethog isod o'r ymatebion i'r cwestiwn yma.

## Creu cymhellion gwrthnysig

Soniodd 24/45 ymateb i arolwg Cymru-gyfan y gall ymgeiswyr a chymunedau ehangach ddod i weld digartrefedd fel yr unig ffordd i gael tŷ cymdeithasol, gan felly greu cymhelliant gwrthnysig iddynt (ac efallai hefyd asiantaethau sy'n eirioli ar eu rhan) i gyflwyno fel digartref. Fe wnaeth un ymateb yn neilltuol ymhelaethu llawer ar y pwynt hwn:

> 'Caiff yr **awydd i atal digartrefedd o fewn rhai preswylwyr ei leihau** gan y tybir fod digartrefedd yn "ffordd i mewn" i dai cymdeithasol. Hyd yn oed gyda ffenestr estynedig o chwe mis ar gyfer gwaith statudol i gydgordio gyda hysbysiadau Rhentu Cartrefi Cymru 2016 gall hyn olygu y bydd rhai preswylwyr yn gweld gwaith ataliol mewn ffordd negyddol ac arwain at fawr ddim ymgysylltu mewn gweithgareddau atal cadarnhaol **gan wneud gwaith y Tîm Atal Digartrefedd yn anos. Gall rhai eiriolwyr a swyddogion hefyd weld hyn fel llwybr i lety sefydlog ar gyfer eu cleientiaid.**
>
> …**er y gellir ystyried bod hysbysiadau ffug yn brin mae achlysuron pan mae'n glir fod landlord wedi rhoi rhybudd ar gais tenant sy'n barod yn meddwl mai digartrefedd yw'r porth i dai cymdeithasol.** Hefyd, mewn llawer o achosion mae aelodau teulu eisoes yn meddwl fod cicio pobl ifanc 18+ oed allan o'u cartref teuluol yn ffordd sicr o gael tŷ cymdeithasol. Rydyn ni eisoes wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynd i dai argyfwng am gyfnod byr yn unig ac yna'n dychwelyd at deulu dim drwy weithredu cadarnhaol tebyg i gyfryngu teuluol neu ddatrys anghydfod, ond oherwydd na chafodd tai cymdeithasol ei ddarparu ar unwaith. Er nad yw ddwy sefyllfa yn gyffredin ac

> mai nifer fach o achosion sydd, **mae risg cynnydd a phwysau ychwanegol ar system sydd eisoes dan bwysau.**
>
> … potensial i ymgeiswyr ddatblygu eu cyfleoedd ceisiadau tai drwy gyflwyniad digartrefedd ar y sail ei bod yn afresymol iddynt aros yn eu cartref presennol. **Dim ond drwy gyllid craidd y gellir cyllido'r capasiti rheoli achosion digartref a chamau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen ac mae'r cyllidebau hynny dan bwysau anhygoel** yn her sylweddol. **Hefyd efallai bod hyn yn lleihau cryfder y ddeddfwriaeth digartrefedd sydd i fod yn rhwyd ddiogelwch yn yr amgylchiadau mwyaf eithafol.'**

Cododd y consyrn hefyd fel rhan o'r trafodaethau mewn grwpiau ffocws a chyfarfodydd, ond caiff ei gyflwyno'n fwyaf helaeth yn y canlyniadau i'r arolwg dienw.

## Adeiladu cymunedau llai cydlynol

Soniodd 25/45 ymateb i'r arolwg Cymru-gyfan am y risg o greu cymunedau anghytbwys, neu gymunedau heb y lefel cydlyniaeth a ddymunir. Mewn llawer o'r ymatebion hyn, roedd ffocws ar fwy o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ôl-ddyledion tenantiaid a chwalfa yng nghynaliadwyedd tenantiaethau, i gyd yn creu mwy o waith ar gyfer yr asiantaethau dan sylw, ac yn lleihau'r gallu i gartrefu mwy o bobl mewn modd sy'n gynaliadwy yn yr hirdymor a threulio amser ar atal a chynllunio strategol. Er enghraifft:

> 'Os ydym yn siarad am boblogaeth sydd â mwy o anghenion cymorth yna rydym yn **peryglu cydbwysedd y gymuned,** gan olygu nad yw pobl yn ffynnu yn yr ardaloedd hyn. Fan leiaf oll, mae digartrefedd ei hun yn drawmatig a byddwn mewn risg o greu cymunedau tai cymdeithasol gyda lefelau uchel o drawma.'

A:

> 'Pe byddai gan y rhai y dyrannwyd tŷ iddynt hefyd risg uchel a neu anghenion cymhleth, byddai'r effaith negyddol ar gynnal a chreu cymunedau cydlynol a gall fod angen **cymorth tai mwy dwys.'**

## Tarfu ar y 'llif' drwy dai cymdeithasol

Soniodd 2/45 ymateb geiriad rhydd i gwestiwn arolwg Cymru-gyfan ar risg cartrefu mwy o aelwydydd digartref an bwysigrwydd 'llif' drwy'r system tai cymdeithasol. Roedd hon yn thema a nodwyd yn gyson yn y grwpiau ffocws a chyfarfodydd un i un gyda chyfranogwyr. Mae un o'r ymatebion i'r arolwg Cymru-gyfan yn esbonio hyn yn dda

> ‘Mae nifer fawr o osodiadau i aelwydydd digartref hefyd yn arwain at **darfu yn y llif gosodiadau ar y rhestr aros g**an nad yw gosodiadau i’r digartref yn rhoi eiddo yn ôl (yn wahanol i osodiadau i’r rhai sy’n symud i gartref llai neu’n trosglwyddo i eiddo mwy). Dangoswyd y gall gosod eiddo i’r rhai sydd angen symud i gartref llai arwain at gadwyn o osodiadau a all ddatrys yr angen tai i nifer o aelwydydd. **Nid yw gosod i deulu digartref yn rhyddhau gosodiad parhaol a gall gosod canrannau uchel i aelwydydd digartref arwain at ostyngiad sylweddol yn yr anheddau sy’n dod ar gael i’w gosod**.’

Mae ymateb arall yn adleisio hyn, gan ddweud

> ‘Gostwng symudedd tenantiaid o fewn stoc a’r gallu i gartrefu ymgeiswyr eraill o fewn ein cymunedau sydd ag angen tai. **Mae gostwng symudedd tenantiaid hefyd yn gostwng faint o eiddo sydd ar gael – mae angen sicrhau trwybwn** tenantiaid o lety addas ar gyfer teuluoedd mwy.’

# MANTEISION DYRANNU MWY O DAI I AELWYDYDD DIGARTREF

Gofynnwyd i gyfranogwyr hefyd beth fyddai manteision dyrannu mwy o dai i aelwydydd digartref. Yn yr arolwg Cymru-gyfan, cafodd hyn ei osod yn nhermau 'effeithiau cadarnhaol' yng Nghwestiwn 11: 'Pe byddai dyraniadau i aelwydydd digartref neu'r rhai sydd mewn risg o ddod yn ddigartref yn cynyddu, beth fyddai'r prif effeithiau cadarnhaol?'

Soniodd mwyafrif llethol yr ymatebion am yr effaith gadarnhaol debygol ar ostwng arosiadau mewn llety dros dro. Dywedodd 28/45 ymateb y byddai dibyniaeth ar lety dros dro yn gostwng, ac aeth llawer ymlaen i sôn am yr effeithiau y byddai gostyngiad o'r fath yn ei gael ar gyllidebau dan bwysau, y gellid wedyn eu defnyddio ar gyfer meysydd eraill o waith tai. Er enghraifft:

> '**Gostyngiad tymor byr mewn defnydd llety Gwely a Brecwast ac effaith gadarnhaol ddilynol ar gyllideb y Gronfa Gyffredinol.** Llai o ddefnydd o lety dros dro a'r nifer o eiddo awdurdodau lleol a ddefnyddir fel llety dros dro – defnyddir un mewn tri ar gyfer y diben hwn ar hyn o bryd. **Gostwng gwariant ar unedau gwag ar gyfer awdurdodau lleol** gan na fydd yn rhaid i gleientiaid digartref symud o lety dros dro a ddarperir o'i stoc ei hun gan awdurdodau lleol a drwy wneud hynny bydd yn gostwng yr angen am waith dilynol i gael eiddo'n barod i'w ail-osod.'

Dywedodd ymateb arall:

> 'Gostwng yr angen am lety dros dro. **Gallu i ailgyfeirio'r arian yma i fesurau mwy effeithiol i atal digartrefedd'.**

Soniodd llawer o ymatebion am well iechyd a llesiant ar gyfer yr unigolion a'r teuluoedd digartref:

> 'Atal pobl rhag symud i gartrefi dros dro. **Osgoi gwahanu teuluoedd. Llai o straen a phwysau ar ymgeiswyr. Pobl yn cael cartrefi parhaol yn gynharach gyda holl fanteision cysylltiedig hynny. Helpu i liniaru problemau iechyd ac effeithiau cymdeithasol eraill cysylltiedig** (er enghraifft plant yn cael mynediad i addysg neu ostyngiad mewn troseddu). Cynyddu incwm a mynediad i gymorth i helpu gyda diweithdra.'

Cysylltodd rhai ymatebion gyda'r effaith gadarnhaol unigol yma gydag effaith bosibl ar wasanaethau cymorth ehangach, yn cynnwys pwysau cyllideb:

> 'Effaith gadarnhaol ar lesiant cleientiaid digartref drwy ostwng faint o amser a dreulir mewn llety argyfwng/dros dro ac **fel canlyniad lai o alw am ymyriadau cymorth dilynol mwy costus gan wasanaethau eraill y Cyngor a gwasanaethau statudol.'**

Dywedodd un arall:

> 'Mae'n amlwg y byddai hyn yn gostwng pwysau ar ddigartrefedd a llety dros dro. Fodd bynnag byddai trin y materion hynny yn cael **amrywiaeth o fanteision cymdeithasol ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau o iechyd i addysg.'**

Ymateb arall eto ar y pwynt hwn yw:

> 'Byddai'r effaith amlwg ar gyfer yr ymgeiswyr digartref eu hunain. Eu galluogi i gael **diogelwch a sicrwydd cartref a rhoi sylfeini ar gyfer dyfodol gyda gwell rhagolygon o ran iechyd, llesiant, addysg, cyfleoedd cyflogaeth** ac yn y blaen. Mae **gostyngiad mewn costau ar gyfer gwasanaethau** tebyg i iechyd, gofal cymdeithasol, plismona a chyrff trydydd sector a all i gyd gario cost digartrefedd am wahanol resymau."

Fe wnaeth un ymateb gysylltu pwysau sicrhau llety dros dro gydag ecosystem ehangach tai cymdeithasol, ac awgrymodd:

> 'Yn ddelfrydol byddai hyn yn gostwng hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro a gwyddom y gall hynny gael effeithiau negyddol sylweddol ar aelwydydd. **Mae nifer uchel o aelwydydd sy'n dod yn ddigartref yn cael eu cartrefu dros dro mewn amrywiaeth o lety ond mae peth o hyn yn stoc cymdeithasol a rhentu sector preifat sydd yn y pen draw yn gostwng faint o gartrefi sydd ar gael ar gyfer cartrefi parhaol.** Ein targed ddylai fod canfod llety dros dro ar gyfer unrhyw un sydd dan fygythiad digartrefedd cyn iddo ddigwydd neu gyda'r arhosiad byrraf posibl mewn llety dros dro.'

# MEYSYDD A AWGRYMIR AR GYFER YMCHWIL PELLACH

Ar hyd y gwaith hwn ymddangosai fod rhai meysydd yn awgrymu eu hunain ar gyfer ymchwil pellach ac felly cânt eu nodi isod.

## Gwaith hydredol ar gynaliadwyedd

Roedd cwpl o’r cyfranogwyr mewn ardaloedd sylw yn hyrwyddo cael ymchwil hydredol ar y deilliannau ar gyfer tenantiaid a gafodd eu hailgartrefu yn gyflym. Daeth y cais hwn yn amlwg o drafodaethau am gynaliadwyedd, a’r ffaith fod rhai swyddogion tai sy’n gweithio yn y system yng Nghymru ar hyn o bryd yn bryderus nad oes digon o gymorth a seilwaith i gynnal tenantiaethau i’r tymor hirach ar gyfer rhai gydag anghenion cymhleth. Awgrymodd cyfranogwyr nad yw hi’n bosibl cael darlun llawn a chywir o ddeilliannau hirdymor ailgartrefu cyflym (o ran cost a budd ariannol a chymdeithasol) heb gasglu’r math hwn o ddata mewn modd systematig, o’r cychwyn cyntaf.

## Cydberthynas rhwng cymhareb galw/cyflenwi a chyfrannau dyrannu

Un o’r rhwystrau allweddol a ddaeth i’r amlwg o’r gwaith hwn oedd y prinder mawr o eiddo anghenion cyffredinol 1 ystafell wely, cymesur i lefelau angen eiddo 1 ystafell wely ar restri aros awdurdodau lleol. Gallai fod yn ddefnyddiol cynnal ymchwil meintiol pellach ar y ffactor arbennig hon, i weld os oes cydberthynas rhwng gwahaniaethau lleol yn y cyflenwad a’r stoc eiddo 1 ystafell wely ac unrhyw wahaniaethau mewn cyfrannau dyrannu i aelwydydd digartref. Mae’n aneglur i ba raddau y mae diffyg eiddo 1 ystafell wely yn effeithio ar yr anallu i gartrefu mwy o aelwydydd digartref. Fodd bynnag, mae cyfranogwyr yn awgrymu ei bod yn ffactor allweddol, felly gallai gwaith pellach wedi’i dargedu ar ddeall maint y broblem lywio datrysiadau a allai fod ag effaith sylweddol.

## Ystyriaeth mwy manwl i ddata o’r ardaloedd sylw

Gallai ymchwil pellach i bob un o’r ardaloedd sylw adeiladu’n ddefnyddiol ac yn gyflym ar yr ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn. Gallai meysydd i’w hystyried gynnwys edrych yn fanwl iawn ar:

- Y ffigurau sy’n cyfrannu at y cyfraddau dyrannu a adroddwyd, gan edrych yn union sut i ‘dynnu’ y data o’u systemau, sut maent yn categoreiddio ymgeiswyr y mae dyletswydd iddynt a chyfrannu hynny i’r cyfrif data;
- Craffu dwys ar eu polisïau lleol o amgylch elfennau o’r broses ddyrannu (tebyg i sut maent yn trin ôl-ddyledion cyn denantiaid, hanes o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anghenion cymorth yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau), sydd i gyd yn cyfrannu at bwy y dyrennir eiddo iddynt;

- Mapio manwl ar y ‘daith ddyrannu’ o’r adeg y daw eiddo ar gael, i’r adeg pan fydd aelwyd yn symud i fyw yno.

Gallai cydberthynas yr allbynnau o’r meysydd ymchwilio hyn gael eu cymharu gyda’r cyfraddau lleol o ddyrannu i aelwydydd digartref a dechrau dangos yn fwy penodol pa ddulliau sydd â’r effaith fwyaf ar sicrhau cyfraddau uwch. Wrth gwrs, gallai hyn gael ei wneud ar draws pob un o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ond byddai hyn yn cynyddu maint y gwaith ac felly faint o amser sydd angen i’w gynnal. Ar ôl symud ymlaen eisoes at ddealltwriaeth ddyfnach o’r ardaloedd sylw, drwy’r ymchwil gyfredol yma, cafodd sylfaen dda ei gosod i dyrchu’n ddyfnach yn yr ardaloedd hynny yn neilltuol.

# CASGLIAD

Mae prosesau dyrannu yn ffordd o ddogni adnodd cyfyngedig tai cymdeithasol mewn ffordd mor deg a chyson ag sydd modd, gan hefyd roi digon o hyblygrwydd i gyfrif am amrywiad sylweddol mewn amgylchiadau unigol. Mae'r ymchwil hwn wedi caniatáu peth ymchwil ar yr heriau sy'n gynhenid mewn gweithredu prosesau dyrannu 'ar lawr gwlad' yng Nghymru, mewn hinsawdd lle mae'r galw am dai cymdeithasol yn gynyddol yn tyfu'n fwy na'r cyflenwad.

Siaradodd llawer o'r bobl oedd yn gysylltiedig am y ffaith fod dyraniadau unigol sy'n newid pwyslais yn hanfodol, a bod yn rhaid i brosesau roi ystyriaeth i anghenion, dymuniadau a dewisiadau aelwyd. Mae'r rhan fwyaf  o bobl yn teimlo mai cynnig gwir ddewis, beth bynnag yw 'statws' presennol rhywun yng nghyswllt digartrefedd, a beth bynnag yw eu hanes, yw'r ffordd fwyaf tebygol o greu tenantiaethau hirdymor llwyddiannus a chymunedau sefydlog a chynhwysol. Ond soniodd mwyafrif helaeth y cyfranogwyr hefyd am yr heriau sylweddol yng nghyswllt y cyflenwad o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Yng nghyd-destun y cyflenwad cyfyngedig hwn, holodd llawer o bobl i ba raddau y mae'n bosibl cynnig 'dewis' ar hyn o bryd.

Drwy gynnal y darn hwn o waith roedd yn amlwg fod parodrwydd go iawn i ganfod datrysiadau ar y cyd i'r argyfwng tai presennol. Fodd bynnag, mynegodd llawer o bobl deimladau o fod yn ddiymadferth yn wyneb system dan bwysau mor ddwys, heb fawr o lwybrau amlwg i gynyddu cyflenwad neu ostwng galw.

Bydd angen i newidiadau mewn arferion dyrannu fynd law yn llaw gydag ymyriad sy'n anelu i gynyddu cyflenwad neu fygu galw. Roedd llawer o bobl o'r farn y gall dyrannu mwy o dai cymdeithasol i rai y mae dyletswydd iddynt, heb ystyried yr effaith ar bobl eraill sydd mewn angen, neu heb ystyried ecosystem ehangach sut mae tai yn gweithredu, fod ag effeithiau niweidiol.

Mae'r holl awdurdodau lleol a LCC ar draws Cymru yn dyrannu tai mewn gwahanol ffyrdd ac ymddengys fod llawer iawn o amrywiaeth mewn cyfrannau dyrannu i aelwydydd digartref, yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar hyn o bryd. Oherwydd fod gwahaniaeth mor helaeth mewn arferion lleol, a bod gan bob ardal set mor wahanol o gyfleoedd a heriau (demograffig, daearyddol, gwleidyddol a gweithredol), nid yw'n bosibl dynodi pa elfennau o'r prosesau dyrannu lleol sy'n neilltuol o llwyddiannus wrth gynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref. Mae'r meysydd a amlinellir yn yr adroddiad hwn am ymchwil pellach yn awgrymu sut y gallent fynd yn nes at rai atebion i'r cwestiwn yma.

Fodd bynnag, mae'n amlwg fod peth arfer da yn digwydd ar draws Cymru, gyda swyddogion yn cydweithio i ganfod ffyrdd newydd i drin y broblem gymhleth hon. Mae'r sylw ar Sir Gaerfyrddin

yn dangos newid blaengar o fewn blwyddyn, lle mae cefnogaeth wleidyddol ar lefel leol wedi galluogi swyddogion yr awdurdod lleol a’r LCC sy’n bartneriaid iddynt i weithio gyda phobl ar eu rhestri aros i fod yn rhagweithiol wrth ganfod datrysiadau newydd. Yng Nghaerdydd, ymddengys fod y dull gweithredu hyblyg ar draws pob partner i gynyddu a gostwng dyraniadau i aelwydydd digartref mewn ymateb i angen, yn eu cynorthwyo wrth gyflawni weithiau gyfraddau 100% o ddyraniadau i aelwydydd digartref. Yn y digwyddiad Cymru-gyfan lle cyflwynwyd canfyddiadau allweddol o’r ymchwil hwn, rhannodd cydweithwyr ar draws y sector eu meysydd eu hunain o arfer da a newydd, a daeth gydag awydd go iawn i gydweithio tuag at welliannau.

Ar hyd yr ymchwil hwn cyflwynodd cyfranogwyr syniadau am sut y gallai deddfwriaeth ac arweiniad gyfrannu fel rhan o’r datrysiad. Fe wnaethant ystyried y ffaith ei bod yn debygol y bydd trin yr argyfwng presennol yn galw am rai ymyriadau tymor byr, ond mae’n rhaid i ni hefyd gadw ein ffocws os mai’r rheiny yw’r datrysiadau cywir ar gyfer y tymor hirach. Roedd pobl yn aml yn dychwelyd at yr angen am eglurdeb diben o amgylch y cyfeiriad strategol hirdymor ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru a’r angen i ddylunio system dyraniadau gyda’r weledigaeth hirdymor honno dan sylw.

Wrth galon unrhyw ddatrysiad, bydd yn hanfodol cael ateb clir i’r cwestiwn: ‘Ar gyfer pwy mae tai cymdeithasol yng Nghymru?’ Os mai dim ond ar gyfer cyfran neilltuol o’r rhai sy’n cyflwyno i’r system diy mae digon o dai cymdeithasol ar gael, a bod y galw gan aelwydydd digartref yn cynyddu i’r pwynt lle mae’n fwy na’r cyflenwad, yna bydd prosesau dyrannu sy’n gorfodi rhoi blaenoriaeth i aelwydydd digartref dros bawb arall yn creu system lle mai dim ond i aelwydydd y mae dyletswydd iddynt y caiff tai cymdeithasol eu darparu. Rhybuddiodd cyfranogwyr yn erbyn hyn, gan awgrymu y bydd yn gyrru cymhellion gwrthnysig i’r system i bobl gyflwyno fel digartref er mwyn cael cartref, ac y gall fod effeithiau negyddol ehangach ar gydlyniaeth cymunedol a’r ‘llif’ naturiol drwy stoc tai cymdeithasol.

Roedd y rhai a gymerodd ran yn y gwaith hwn yn awyddus i ganfod ffyrdd arloesol ac ar y cyd i wella’r sefyllfa fel y mae. Mae partneriaethau cryf i adeiladu arnynt, ac arbenigedd sylweddol, yn ogystal â pharodrwydd i newid a dysgu gan eraill. Y ‘gofyn’ pennaf yw eglurdeb am y weledigaeth hirdymor o ar gyfer pwy mae tai cymdeithasol yng Nghymru, set gydnaws o ymatebion wedi eu cynllunio sy’n adeiladu’n glir tuag at y weledigaeth honno a digon o amser a buddsoddiad i fedru cydweithio’n ystyrlon o amgylch cyflawni’r camau breision hynny ymlaen.

# ATODIAD 1: COMPENDIWM O 5 DARN SYLW

## Sylw ar Gastell-nedd Port Talbot

### Ffeithiau allweddol

- Nid yw'r Cyngor wedi dal stoc ers 2011 ac mae'n gweithredu polisi dyrannu ar y cyd gyda'i LCC trosglwyddo stoc, Tai Tarian. Mae Cytundeb Enwebu yn ei le gyda'r LCC eraill sy'n gweithredu yn yr ardal.
- Yr LCC sy'n gweithredu yn yr ardal yw: Tai Tarian, Coastal, Linc Cymru, Caredig, Pobl, Aelwyd, Dewis Cyntaf.
- Mae gan Tai Tarian 9053 uned o stoc.
- Cyfanswm stoc tai cymdeithasol yn ardal yr awdurdod lleol: 12,836 uned
- Cyfanswm dyraniadau gan Tai Tarian yn 2021/22: 531, gyda 216 ohonynt i aelwydydd digartref (41%)[5]
- 200 aelwyd mewn llety dros dro fel ar 13 Ebrill 2023. Hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro yn ystod 2022/23 = 88 diwrnod

### Pennawd

Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn awdurdod sy'n dal stoc, gan iddo drosglwyddo yr holl stoc i Tai Tarian yn 2011. Mae'r polisi dyraniadau a rannwyd, a ddatblygwyd bryd hynny ac sydd yn dal ei le yn awr, yn amodol ar adolygiadau bob tair blynedd mewn partneriaeth rhwng Tai Tarian a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r polisi yn seiliedig ar fandiau (Brys, Aur, Arian ac Efydd). Nid oes cofrestr tai gyffredin, er y cynhaliwyd sgyrsiau yn ddiweddar am ddatblygu cofrestr o'r fath yng nghyd-destun y strategaeth Ailgartrefu Cyflym. Ar hyn o bryd, ymddengys mai ychydig o awydd sydd i symud ymlaen ar gofrestr gyffredin, a gall y strategaeth yn lle hynny ddilyn proses gais gyffredin yn y lle cyntaf, gyda golwg at symud ymlaen tuag at gofrestr gyffredin yn y tymor hirach.

[5] Oherwydd nad oes cofrestr tai gyffredin, ac nid yw'r awdurdod lleol yn dal stoc, nid oes ffigur cynhwysfawr ar gael i ddangos cyfanswm nifer y dyraniadau a wnaed yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod 201/22 (a faint ohonynt oedd i aelwydydd digartref).

## Golwg Manwl

Mae tîm Opsiynau Tai Castell-nedd Port Talbot wedi gweld cynnydd mawr mewn cyflwyniadau i'r gwasanaeth dros flynyddoedd diweddar, gyda chyflwyniadau digartref yn codi o 2079 yn 202/21 i 2650 yn 2022/23.

Dywedir fod anghenion uchel ar gyfer ymgeiswyr a chymorth tenantiaid ar draws Castell-nedd Port Talbot  ac mae'r partneriaid a gasglwyd ynghyd yn yr ymchwil yma wedi dweud fod cymhlethdod angen yn cynyddu. Mae'r sefyllfa economaidd yn cael effaith sylweddol ar bobl, a gyda chost cynyddol eiddo a landlordiaid sector rhent preifat yn gadael y sector, mae tenantiaid yn tueddu i aros yn eu tai cymdeithasol, gan felly ostwng 'corddi' eiddo yn dod ar gael ar gyfer dyrannu.

Gall fod yn anodd canfod y cydbwysedd rhwng creu tenantiaeth gynaliadwy, a rheoli dyraniad llwyddiannus. Mae rhai LCC yn dweud fod ymgeiswyr sy'n mynd drwy 'banel symud ymlaen' yr awdurdod lleol yn cael anhawster gyda'r broses a'r gwaith papur, a gall y meini prawf a gaiff eu rhoi yn eu lle gan y panel (yn cynnwys gofynion am gamddefnydd sylweddau diweddar) fod yn rhwystr i bobl yn symud i eiddo. Mae LCC eraill yn dweud y gallent fod ag uned wag, ond gallai'r atgyfeiriadau ac enwebiadau a gânt fod ar gyfer ymgeiswyr gydag anghenion iechyd meddwl llawer mwy sylweddol nag sydd ganddyn nhw (yr LCC) yr arbenigedd i'w cefnogi.

Ymysg y cymhlethdod a'r angen uchel yma, mae'r system dyraniadau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn eithaf darniog, heb unrhyw 'ffordd i mewn' ar gyfer ymgeiswyr sy'n edrych am dai cymdeithasol. Mae'r prif LCC dal stoc (Tai Tarian) yn gweithredu proses dewisiadau seiliedig ar ddewis dan bolisi rhannu dyraniadau gyda'r awdurdod lleol, ac mae'r 6 LCC arall yn y fwrdeistref yn gweithredu dan gytundeb enwebiadau newydd. Roedd apwyntiadau tua 50% tan yn ddiweddar pan ddechreuodd LCC un wrth un ddechrau cynyddu eu lefelau enwebiadau (gydag un LCC yn dod i fyny i 100%).

Fel gyda llawer o ardaloedd ar draws Cymru, mae galw uchel yng Nghastell-nedd Port Talbot am eiddo 1 ystafell wely, a chyflenwad cyfyngedig iawn, yn arbennig mewn ardaloedd lle byddai ymgeiswyr yn dewis byw. Mae'r gyfradd unedau gwag ar gyfer Tai Tarian (y cyfranddaliwr mwyaf) tua 500-600 y flwyddyn, gydag eiddo mwy yn debycach o fynd yn uned wag.

Dywedodd rhai o'r LCC sy'n gweithredu ar fwrdeistrefi lluosog eu bod yn credu fod y diffyg cofrestr tai gyffredin yng Nghastell-nedd Port Talbot yn aneffeithiol a dryslyd i ymgeiswyr. Mae hefyd yn creu gwactod lle gallai partneriaeth ystyrlon ffynnu pe byddai cofrestr gyffredin i gyfuno o'i hamgylch.

Er hyn, dywedodd rhai LCC fod angen pwyll am gyflwyno cofrestr gyffredin, gan awgrymu fod yn rhaid cadw hyblygrwydd a disgresiwn am reoli dyraniadau er mwyn caniatáu tenantiaethau cynaliadwy hirdymor a chymunedau cydlynol. Roedd LCC yn glir i ddweud nad 'gêm rhifau' yw hyn – mae dewis a dealltwriaeth ddwfn o anghenion ymgeiswyr a thenantiaid yn hanfodol os yw pobl i gael eu cartrefu'n effeithiol.

Mae partneriaethau yn bennaf yn ymddangos yn gryf a chadarnhaol yn yr ardal hon, a dywedodd partneriaid eu bod yn dod ynghyd o amgylch sgyrsiau strategol yn ogystal â materion o frys gweithredol. Mae hefyd rai cysylltiadau uniongyrchol rhwng yr LCC sy'n gweithredu yn yr ardal, ar faterion penodol tebyg i gefnogi ymgeiswyr sydd wedi dioddef a goroesi trais domestig neu drefnu gosod eiddo wedi ei addasu.

Yn ystod yr ymchwil, soniodd LCC pa mor gadarnhaol a ffrwythlon oedd dod ynghyd i drafod dyraniadau, a dechreuodd rhai datrysiadau esblygu hyd yn oed y cyfnod byr y gwnaethom ei dreulio gyda'n gilydd mewn sgwrs gyda hwylusydd. Mae ymdeimlad cyffredinol ymysg partneriaid y byddid yn croesawu mwy o hyn.

# Sylw ar Gaerdydd

## Ffeithiau allweddol

- Mae'r Cyngor yn gweithredu cofrestr tai gyffredin gyda 8 LCC yn cymryd rhan.
- LCC sy'n gweithredu yn yr ardal: Cadwyn Cymuned Caerdydd, Hafod, Linc Cymru, Newydd, Taf, United Welsh, Wales & West, Aelwyd (heb fod yn rhan o'r gofrestr gyffredin)
- Mae'r awdurdod lleol yn dal stoc (13,629 uned)
- Cyfanswm stoc tai cymdeithasol yn ardal yr awdurdod lleol: 25,742 uned
- Cyfanswm dyraniadau yn 2021/22: 1001, gyda 601 ohonynt i aelwydydd digartref (60%)
- 1584 aelwyd mewn llety dros dro ar hyn o bryd. Hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro (ar gyfer aelwydydd y mae dyletswydd iddynt) – 262 diwrnod.

## Pennawd

Mae dull cwota hyblyg Caerdydd at ei restr aros mewn segmentau, a weithredir drwy'r gofrestr tai gyffredin gyda'i 8 partner LCC, yn golygu y gall gosodiadau i aelwydydd digartref gyrraedd 100% ar rai adegau. Gyda dros 25,000 uned o stoc tai, y sector rhent preifat fwyaf mewn termau

canran a hefyd niferoedd absoliwt, a phoblogaeth fawr o fyfyrwyr, mae gan Gaerdydd rai gwahaniaethau sy'n ei gosod ar wahân i rannau eraill o Gymru.

## Golwg Manwl

Caiff tai cymdeithasol yng Nghymru eu dyrannu drwy gofrestr tai gyffredin, a weithredir gan y Cyngor, gyda 8 LCC yn cymryd rhan. Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun bandio, sy'n sicrhau bod pobl gyda'r mwyaf o angen tai yn cael blaenoriaeth ychwanegol er mwyn cael eu cartrefu yn gyntaf.

Mae ymgeiswyr sy'n ymuno â'r rhestr yn dewis pa ardaloedd y dymunant fyw ynddynt (ar gyfer ymgeiswyr digartref, mae angen i o leiaf 4 ardal gael eu dethol mewn ardaloedd 'argaeledd uchel'). Caiff y rhestr aros ei rhannu yn 4 is-grŵp:

- Yn syth
- Digartref
- Buddiol
- Cyffredinol

Caiff targedau eu gweithredu i ddweud pa ganran o osodiadau sydd ar gael i bobl is-grŵp. Mewn ymateb i'r galw am dai, caiff cwota hyblyg ei weithredu tuag at osodiadau i grwpiau anghenion blaenoriaeth (tebyg i ymgeiswyr digartref). Mewn ymateb i'r galw diweddar, mae hyn wedi golygu bod gosodiadau i aelwydydd digartref wedi cynyddu o 60% yn 2021 i gymaint â 100% mewn rhai cyfnodau. Mae'r cwota gosodiadau ar hyn o bryd yn gweithredu tua 80%, gyda gosodiadau wedi eu blaenoriaethu gan ddarparwyr llety dros dro i deuluoedd i ychwanegu at anghenion tai arall.

Caerdydd sydd â'r canran uchaf o lety rhent preifat yng Nghymru mewn termau canrannol (>20%) a hefyd rifau absoliwt (gall y boblogaeth fawr o fyfyrwyr gyfrif am hyn i ryw raddau). Mae hyn yn golygu fod gan darfu yn y sector rhent preifat fwy o botensial i ymyrryd ar gyflenwad tai Caerdydd. Bu cynnydd o bron 100% y llynedd yn nifer yr hysbysiadau troi allan heb fai, ac mae diffyg cyfartalog ar draws pob math o eiddo sector rhent preifat o tua £400.

Mae cyfanswm stoc tai cymdeithasol Caerdydd yn 25,742 uned, gyda chymysgedd da o feintiau eiddo ar draws y portffolio, gydag eiddo 2 ystafell wely y gyfran uchaf o stoc.

Er y lefelau uchel o stoc tai cymdeithasol, mae gan Gaerdydd restr aros o 7791 aelwyd ar hyn o bryd gyda 679 ar y rhestr aros 'digartref' ac 87 gyda blaenoriaeth 'Yn syth'.

Ar gyfer aelwydydd digartref, mae’r Cyngor yn gweithredu 3 porth llety i’r digartref (un ar gyfer pobl sengl, un ar gyfer teuluoedd, ac un ar gyfer pobl ifanc). Yn 2021/22 rhoddodd y Cyngor gyfanswm o 2033 aelwyd yn y 3 porth yma, a bu cynnydd cyflym yn nifer y cyflwyniadau digartref ers hynny.

Oherwydd diffyg opsiynau symud ymlaen, mae hyd taith cyfartalog ar draws pob porth yn awr wedi cynyddu ac ar hyn o bryd mae’r holl byrth yn agos at fod yn llawn. Felly mae’r galw am lety dros dro wedi cynyddu’n gyflym, gan arwain at fwy o ddefnydd o westai fel llety dros dro.

Mae gweithio partneriaeth rhwng y swyddogion awdurdod lleol a’u cydweithwyr mewn LCC yn gryf ac yn ffrwythlon, ac ymddengys fod y gofrestr tai yn gweithio’n dda fel cyfrwng ar gyfer gosodiadau cydlynus. Mae her oherwydd bod yr awdurdod lleol yn fawr ac felly gyda llawer o wahanol adrannau, ac mae rhai LCC yn ei chael yn anodd canfod eu ffordd o gwmpas o fewn amserlenni byr. Dywedodd rhai partneriaid hefyd fod angen diweddaru’r system ddata sydd yn sail i’r system ac y dylai mwy o ddata gael ei rannu i alluogi gweithio dydd-i-ddydd mwy effeithiol.

Ond mae teimlad cyffredinol fod rhannu’r gofrestr yn segmentau yn galluogi dyraniadau effeithol, gan ryddhau llety a rhoi blaenoriaeth i’r rhai sydd yn yr angen mwyaf. Mae’r berthynas a adeiladwyd o amgylch y gofrestr a’r system yn allweddol i lwyddiant gyda phartneriaid lluosog yn dod ynghyd i addasu eu dulliau gweithredu yn gyflym iawn mewn ymateb i’r galw, a phawb â throsolwg.

Mae sefydliadau yn cwrdd i drafod gwaharddiadau neu achosion MAPPA, ac mae LCC yn dweud nad yw hynny yn digwydd ym mhob rhan o Gymru. Dywedodd cydweithwyr yng Nghaerdydd eu bod yn siarad â’i gilydd ac yn rhoi prosesau teg a thryloyw ar waith, gan edrych i ganfod datrysiadau i broblemau anodd.

# Sylw ar Sir Gaerfyrddin

## Ffeithiau allweddol

- Polisi cyfredol: paru uniongyrchol yn seiliedig ar angen
- LCC sy’n gweithredu yn yr ardal: Caredig, Pobl, Wales & West, Bro Myrddin
- Mae’r awdurdod lleol yn dal stoc (9267 uned)
- Cyfanswm stoc tai cymdeithasol yn ardal yr awdurdod lleol: 12,487 uned
- Cyfanswm dyraniadau yn 2021/22: 68.74 fesul 1000 uned o stoc, gyda 33.32 (fesul 1000 uned o stoc) i aelwydydd digartref (48%).
- 257 aelwyd mewn llety dros dro fel ar ddiwedd Mawrth 2023. Hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro = 14 wythnos

## Pennawd

Mae’r awdurdod lleol wedi gwneud newid sylweddol mewn polisi dyraniadau yn ystod 2022/23. Gan symud ymaith o system gosodiadau seiliedig ar ddewis, mae paru uniongyrchol yn awr yn ei le ac mae’r canlyniadau’n cael eu monitro.

## Golwg Manwl

Bu’r broses ddyrannu yn Sir Gaerfyrddin drwy newid sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Cymerwyd camau rhagweithiol, wedi eu targedu, i ddiwygio’r polisi dyraniadau i roi blaenoriaeth i bobl mewn angen tai, sy’n gwneud defnydd gwell o stoc tai cymdeithasol.

Tan ddiwedd 2022 roedd yr awdurdod lleol yn gweithredu system gosodiadau seiliedig ar ddewis (‘Canfod Cartref’) gyda’r rhestr aros wedi ei didoli i gategorïau ‘Band A’, ‘Band B’ a ‘Cofrestru yn unig’) yn seiliedig ar frys yr amgylchiadau a’r math o angen tai.

Oherwydd y cyflenwad cyfyngedig o stoc tai sydd ar gael (fel arfer dim ond 900 eiddo ar gael i’w dyrannu bob blwyddyn), gallai pob ymgeisydd cymwys gynnig am eiddo a rhoddwyd blaenoriaeth i aelwydydd Band A. Fodd bynnag, lle nad oedd ymgeiswyr Band A yn cynnig, byddai’r cartrefi hynny yn cael eu dyrannu i aelwydydd naill ai Band B neu ‘cofrestru yn unig’. Roedd y system cynnig yn ddryslyd i lawer o ymgeiswyr a gyda channoedd o gynigion yn dod i law ar gyfer y rhan fwyaf o’r eiddo oedd ar gael, roedd tebygrwydd y byddai’r rhai mewn bandiau eraill yn cael eu cartrefu yn isel ac yn gostwng.

Yn ystod 2022, gyda’r galw am dai yn fwy na’r cyflenwad gan gyfradd o 5:1, cynhaliodd swyddogion yr awdurdod lleol adolygiad, a ddangosodd:

- 4337 aelwyd ar y gofrestr tai, gyda'r gyfran fwyaf ohonynt (65%) heb fod mewn angen tai;
- Roedd dyletswydd lawn i 327 aelwyd ar y rhestr aros (cynnydd o 9% ers y flwyddyn flaenorol);
- Amcanestyniad y bydd mwy na 2000 o bobl yn cyflwyno fel digartref erbyn diwedd y flwyddyn (mwy na 20% yn uwch na lefelau cyn y pandemig);
- Galw sylweddol am gartrefi 1 ystafell wely (mae 68% o'r bobl y mae dyletswydd adran 75 iddynt angen eiddo 1 ystafell wely);
- Diffyg llety dros dro i ateb y galw cynyddol (hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro = 18 wythnos);
- Lefelau digynsail o hysbysiadau adran 21 yn cael eu cyhoeddi, gyda landlordiaid yn cyhoeddi 50 y mis (cynnydd o lefel cyn-Ebrill 2022 o 1-2 hysbysiad y mis).

Soniodd y dadansoddiad am bwysau ychwanegol yn dod o bolisi mewnfudo a lloches yn cynnwys:

- Ailsefydlu pobl o Wcráin (cyfanswm o 92 aelwyd (257 unigolyn) yn cyrraedd yr ardal fel ym mis Awst 20022 drwy lwybrau Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Uwch Noddwr);
- Hysbysiad gan y Swyddfa Gartref bod 141 arall o geiswyr lloches i ddod i'r ardal drwy'r Cynllun Gwasgaru;
- Aelwydydd ychwanegol yn edrych am dai oherwydd ymagwedd 'gadael neb allan' Llywodraeth Cymru at y rhai heb unrhyw hawl i gyllid cyhoeddus.
-

Argymhellodd swyddogion ymateb eithriadol a brys: datblygu Polisi Dyraniadau Tai Cymdeithasol interim argyfwng. Tra bod y polisi hwn yn cael ei roi yn ei le (Hydref 2022 - Ebrill 2023) rhoddwyd disgresiwn i'r Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd i ddyrannu mwyafrif yr eiddo i ateb y lefelau mwyaf brys a dybryd o angen.

Roedd y cynigion ar gyfer y Polisi Dyraniadau newydd yn dangos symud ymaith o osodiadau seiliedig ar ddewis i baru uniongyrchol:

- Paru cartrefi gyda phobl yn yr angen mwyaf i ddechrau. Dim ond os na fedrid eu paru y caiff cartrefi eu hysbysebu ar Canfod Cartref;
- Ymgeiswyr y mae Dyletswydd Tai iddynt yn cael cynnig rhesymol; pob ymgeisydd arall yn cael dau gynnig addas.

Roedd y cynigion dechreuol am newid yn ceisio mynd ymhellach, ond nid oedd deddfwriaeth yn caniatáu cau'r gofrestr tai i rai heb unrhyw angen amlwg a/neu y gallu i ateb eu hanghenion tai eu hunain yn ariannol.

I gyd-fynd â'r newidiadau gwnaed gwaith sylweddol ar ymgyrch ymwybyddiaeth y cyhoedd, cysylltu gydag aelodau lleol a phartneriaeth gyda'r LCC yn gweithredu yn yr ardal.

Mae Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd a thîm Hwb Tai Sir Gaerfyrddin wedi dweud yn glir fod cefnogaeth wleidyddol leol lawn yn hanfodol i sicrhau'r newid sylweddol hwn mewn polisi ac ymarfer. Heb hyn, ni fyddai maint y newid rhagweithiol wedi bod yn bosibl.

Mae'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd wedi ymwneud agosaf hyd yma yn adrodd newidiadau dramatig, ac yn dweud fod y ffocws ar y polisi newydd wedi cynyddu gweithio partneriaeth. Mae cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos, gyda ffocws ar yr ymgeiswyr yn mynd drwy'r system, wedi adeiladu perthnasoedd mewn modd cadarnhaol. Mae rhai landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eisoes wedi cynyddu enwebiadau eu stoc i'r awdurdod lleol, gydag un LCC yn awr yn enwebu 100%. Cafodd ymddiriedaeth ei feithrin ac mae 'pobl yn mynd o amgylch y bwrdd' i sicrhau newid. Mae swyddogion awdurdodau lleol yn awyddus i gael pob LCC i gymryd rhan, gan gydweithio i wirioneddol ddeall pob un person ar y rhestr, eu hanghenion a'u hamgylchiadau, fel y gallant flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf mewn angen.

Roedd yn glir yn y trafodaethau gyda'r rhai sy'n gweithredu yn Sir Gaerfyrddin fod partneriaeth o barch a ffocws. Mae gan bawb wahanol safbwynt a gall fod yn anodd canfod y tir canol ond mae'r gallu i 'weld pethau o safbwynt pobl eraill' yn allweddol i'r broses.

Aeth Polisi Argyfwng Dyraniadau Tai Cymdeithasol yn fyw ar 5 Ebrill 2023. Mae canlyniadau data chwarterol o'r system cydrhwng, a weithredwyd gan y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd, eisoes yn dangos cynnydd mewn paru uniongyrchol a gostyngiad yn faint o amser mae pobl yn aros i gael eu paru ar ôl cael eu rhoi mewn band neilltuol (i lawr o 20 wythnos yn nata'r chwarter cyntaf i 16 wythnos yn yr ail chwarter).

# Sylw ar Wrecsam

## Ffeithiau allweddol

- Nid yw'r Cyngor yn cymryd rhan mewn cofrestr tai gyffredin. Mae cytundeb enwebiadau yn ei le ac mae'n cael ei adolygu a'i ddiwygio ar hyn o bryd.
- Landlordiaid cymdeithasol sy'n gweithredu yn yr ardal: Adra, Clwyd Alyn, Dewis Cyntaf, Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru, Wales & West Housing.
- Mae'r awdurdod lleol yn dal stoc (11,065 uned)
- Cyfanswm stoc tai cymdeithasol yn ardal yr awdurdod lleol: 13,611
- Cyfanswm dyraniadau yn 2021/22: 865, gyda 237 ohonynt i aelwydydd y mae gan y cyngor ddyletswydd digartrefedd iddynt (27%)
- 278 aelwyd mewn llety dros dro fel ar ddiwedd Mawrth 2023. Hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro = 22 wythnos.

## Pennawd

Mae Wrecsam yn gweithredu system seiliedig ar fandiau mewn cytundeb enwebu gyda'r 6 landlord cymdeithasol cofrestredig yn yr ardal, ac mae hynny'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Fel un o ardaloedd gwasgaru y Swyddfa Gartref, yn agos at y ffin gyda Lloegr ac yn profi effaith rheoliadau diweddar ar reoli ffosffadau ar ddatblygiadau newydd, mae gan y fwrdeistref bwysau penodol iawn ar dai cymdeithasol. Fel mewn llawer o ardaloedd, mae'r galw yn sylweddol uwch na'r galw, yn arbennig ar gyfer eiddo 1 ystafell wely.

## Golwg Manwl

Ar hyn o bryd mae gan awdurdod lleol Wrecsam lwyth achos digartrefedd o dros 800, gyda thua 260 aelwyd mewn llety dros dro, gydag opsiynau cyfyngedig iawn ar gyfer symud ymlaen.

Mae'r cyngor yn berchen stoc tai cymdeithasol o 11,065 eiddo, gyda 2546 o unedau fforddiadwy eraill yn eiddo'r chwe landlord cymdeithasol cofrestredig sy'n gweithredu yn yr ardal. Mae mwyafrif helaeth y rhain yn eiddo 'anghenion cyffredinol' gyda chyfran lai o dai gwarchod, byw â chymorth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu a chyn-aelodau'r lluoedd arfog.

Fodd bynnag, er bod lefelau stoc yn gymharol uchel yng nghyd-destun Cymru-gyfan, trosiant cyfyngedig iawn sydd ar hyn o bryd. Mae argaeledd eiddo 1 ystafell wely yn her neilltuol. Dengys ffigurau fod y galw am eiddo 1 ystafell wely 20:1 yn fwy na'r galw ar hyn o bryd (yn ystod 2022/23, dim ond 124 o eiddo 1 ystafell wely a ddaeth ar gael; roedd cyfanswm nifer yr

aelwydydd ar y rhestr aros ar ddechrau’r flwyddyn yn 4325, a dengys y data fod tua 58% o ymgeiswyr i’r gofrestr angen eiddo 1 ystafell wely).

Mae’r system ddyraniadau yn Wrecsam yn gweithredu fel bod aelwydydd yn gweithio eu ffordd i fyny’r rhestr, o fewn y band y cawsant eu gosod ynddo. Tra’u bod ar y rhestr aros, mae Swyddog Opsiynau Tai gan bob aelwyd sydd â dyletswydd digartref iddynt. Mae’r Swyddog yma yn cysylltu â nhw yn wythnosol i gadw mewn cysylltiad ac adolygu eu hamgylchiadau. Pan ddaw eiddo ar gael a fedrai fod yn addas iddynt, bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â nhw yn uniongyrchol i siarad gyda nhw os byddai’r eiddo yn addas ai peidio.

Mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y penderfyniad i baru eiddo neilltuol gydag aelwyd neilltuol. Mae cysylltiad â’r gymuned leol yn dal yn ystyriaeth bwysig iawn ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae tri polisi gosodiadau lleol penodol yn eu lle rhwng y Cyngor a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy’n gweithredu yn Wrecsam ar hyn o bryd. Mae un ohonynt yn ymwneud â chymuned wledig ac yn rhoi blaenoriaeth uchel iawn i aelwydydd sy’n byw yn y cyffiniau agosaf: mae’r ddau arall yn seiliedig ar ofynion i ymgeiswyr beidio bod ag unrhyw hanes o gamddefnyddio sylweddau, camddefnyddio alcohol neu risg o fregusrwydd o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar hyn o bryd, ni chaiff aelwydydd digartref flaenoriaeth i Fand 1. Caiff aelwydydd digartref eu rhoi ym Mand 2 y rhestr aros sy’n gweithredu mewn trefn dyddiad, fodd bynnag bydd yr aelwyd yn ymuno â gwaelod y rhestr o fewn Band 2 ar yr adeg y maent yn swyddogol yn dod yn ddigartref.

Daeth y timau dyrannu, opsiynau tai ac asiantaeth gosodiadau lleol o fewn yr awdurdod lleol ynghyd dros y flwyddyn ddiwethaf ac maent yn awr yn yr un lleoliad ac yn rhannu’r un dderbynfa gyhoeddus. Cafodd hyn effaith gwirioneddol, fel pan fo rhywun yn cyflwyno fel digartref maent yn awr yn agored yn awtomatig i gael cymorth gan yr holl dimau hynny.

Gyda’r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, a’r pwysau economaidd dilynol, mae’r awdurdod lleol yn awr yn y broses o adolygu ei gytundeb enwebu. Mae gan nifer o LCC drefniadau unigol ar waith gyda’r Cyngor ar hyn o bryd, ac mae angen eu hystyried yng nghyd-destun strategaeth tai yr awdurdod lleol. Nid yw’r Cyngor wedi mabwysiadu Ailgartrefu Cyflym hyd yma.

Roedd cyfarfodydd partneriaeth gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn gweithio’n dda cyn y pandemig, a bydd ailgynnau y partneriaethau effeithiol hyn yn awr yn rhan allweddol o gynllun yr awdurdod, gan adeiladu ar y tîm wedi ei ailstrwythuro.

# Sylw ar Bartneriaeth SARTH

## Ffeithiau allweddol

- Mae Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn gweithredu polisi dyrannu SARTH (‘Single Access Route To Housing’), polisi dyraniadau partneriaeth sy’n cynnwys pob landlord cymdeithasol cofrestredig sy’n gweithio ar draws y 3 ardal awdurdod lleol. Yn dilyn trosglwyddo gwirfoddol ar raddfa fawr yn 2008, mae Cartrefi Conwy yng ngofal yr hyn oedd yn dai cyngor Conwy. Mae Sir Ddinbych a Sir y Fflint yn dal i gadw tai cyngor.
- Y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy’n gweithredu ar draws SARTH:  Wales & West, Clwyd Alyn, Tai Gogledd Cymru, Grŵp Cynefin, Adra, Cartrefi Conwy
- Cyfanswm stoc tai cymdeithasol yn ardal pob awdurdod lleol:
  - Conwy:  6107 uned
  - Sir Ddinbych 5358 uned
  - Sir y Fflint: 9919 uned
- Cyfanswm dyraniadau yn 2021/22:
  - Conwy: 264, gyda 113 i aelwydydd digartref (43%)
  - Sir Ddinbych: 364, gyda 91 i aelwydydd digartref (25%)
  - Sir y Fflint: 23% gosodiad i aelwydydd digartref[6].
- Aelwydydd ym mhob math o lety dros dro fel ar ddiwedd Mawrth 2023:
  - Conwy:  319
  - Sir Ddinbych: 189
  - Sir y Fflint: 169
- Hyd cyfartalog arhosiad mewn llety dros dro:
  - Conwy: 114 diwrnod
  - Sir Ddinbych: 65 diwrnod
  - Sir y Fflint: 130 diwrnod

## Pennawd

Bu partneriaeth SARTH yn ei lle ers mis Ebrill, gyda newidiadau i’r polisi dyrannu yn cael eu gwneud gan Grŵp Llywio SARTH, sy’n cynnwys aelodau o bob partner. Mae pob awdurdod lleol yn gweithredu cofrestr tai gyffredin neilltuol (er bod Sir Ddinbych a Sir y Fflint wedi gweinyddu eu cofrestri ar y cyd rhwng 2017 ac Ebrill 2023). Mae dyraniadau yn seiliedig ar system bandio

[6] Mae’r data a gyfrannodd at y canran hwn ar gael drwy wneud cais i gydweithwyr yn awdurdod lleol Sir y Fflint, gan na fedrid ei roi mewn pryd i’w gynnwys yn yr adroddiad hwn.

(Bandiau 1-4), gydag aelwydydd digartref fel arfer yn cael eu rhoi ym Mand 2 (gyda chysylltiad lleol), os nad yw'r cais yn cynnwys cam-drin domestig/trais domestig (ac os felly, aiff yr ymgeisydd i Fand 1 pan dderbynnir dyletswyddau digartrefedd llawn) neu nad oes cysylltiad lleol (aiff yr ymgeisydd i Fand 4). O fewn pob band, rhoddir blaenoriaeth yn nhrefn dyddiad. Bu partneriaid SARTH yn gweithredu proses 50% gosodiad uniongyrchol i aelwydydd digartref ers 2020, ac mae hyn yn parhau i 2023, gyda phenderfyniad i'w wneud yn fuan ar lefelau'r dyfodol.

## Golwg Manwl

Mae'r gwaith ar draws partneriaeth SARTH i greu system gydlynol ar gyfer ymgeiswyr a chanfod datrysiadau ar y cyd i broblemau cymhleth yn nerth enfawr. Er fod gan bob partner wahanol rolau i'w cyflawni, mae'r gallu i gyfuno o amgylch polisi partneriaeth canoledig yn cefnogi adeiladu perthynas ac mae brwdfrydedd ac ymrwymiad parhaus gan bartneriaid ar gyfer y dull gweithredu hwn. Soniodd cyfranogwyr yn yr ymchwil sylw yma am ewyllys, egni ac angerdd y bobl sy'n cymryd rhan.

Yn ogystal â Grŵp Llywio SARTH, mae grŵp gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd ac yn canfod ffyrdd ymarferol i gydweithio, gan ddod ag arbenigedd i mewn lle bo angen, yn cynnwys ychwanegu cydweithiwr o wasanaethau iechyd meddwl yn ddiweddar. Gyda chyflwyno'r Polisi Gosod Uniongyrchol i'r digartref yn ystod y pandemig (gyda 50% o osodiadau'n awr ar gael ar gyfer paru uniongyrchol i aelwydydd digartref), mae'r grŵp gweithredol yn cwrdd yn rheolaidd iawn (yn wythnosol ar un adeg) gan drafod oedi penodol ar gyfer ceisiadau unigol, cefnogi ei gilydd i gyflymu'r broses a rhannu cymaint o wybodaeth ag sydd modd. Mae'r ymagwedd hon at dryloywder gweithredol yn amlwg yn gadarnhaol iawn, gan ddangos materion tebyg i wella ymarfer ar y cyd.

Fodd bynnag, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil yma hefyd yn glir, er fod gan bartneriaeth allbynnau cadarnhaol sylweddol, nid yw'n golygu y caiff dyraniadau eu gwneud yn union yr un ffordd yn ardal pob awdurdod lleol. Er y cafodd polisi cyffredin ei ddefnyddio dros lawer o flynyddoedd, mae amrywiad sylweddol yn dal i fod mewn cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref, yn ogystal â gwahaniaethau eraill mewn ymarfer. Mae gweithrediad dydd-i-ddydd cymhleth dyrannu tai cymdeithasol (rhoi ystyriaeth i'r stoc sydd ar gael a dewis ac anghenion ymgeiswyr, a'r awydd i adeiladu cymunedau cynaliadwy i'r tymor hirach) yn mynd law yn llaw gyda gwahaniaethau daearyddol, demograffig, gwleidyddol a diwylliannol lleol, sydd i gyd yn arwain at amrywiad.

Mae pwysau sylweddol ar dai cymdeithasol ar draws pob un o'r tair ardal yn y llain arfordirol yn y gogledd a stoc gyfyngedig o eiddo 1 ystafell wely sydd (yn neilltuol ar gyfer pobl dan 55 oed) a theuluoedd ar gyfer teuluoedd mwy (4+ ystafell wely). Mae'r polisi dyraniadau yn rhoi dewis o ardal i ymgeiswyr pan fyddant yn ymuno â'r gofrestr ond mae pwysau cyflawni'r ddyletswydd i

aelwydydd digartref, ynghyd â chyfyngiadau'r stoc sydd ar gael mewn rhai ardaloedd daearyddol, yn golygu fod dewis mewn gwirionedd yn gyfyngedig iawn gan y gweithredir ystyriaeth mwy cadarn o 'daddasrwydd' dan Ddeddf Tai Cymru 2014.

Mae'r bartneriaeth yn cael trafodaeth helaeth ar hyn o bryd am y dewis ar gyfer ymgeiswyr a natur holistig gwneud dyraniad er mwyn ei gynnal i'r tymor hirach. Mae'r drafodaeth hon yn cydnabod nad yw sgil-effaith gosod tai nad ydynt yn ateb dewisiadau personol a'u hanghenion unigol yn golygu  y gellir gwanhau cynaliadwyedd.

Mae realaeth stoc tai cyfyngedig a'r nifer cynyddol o gyflwyniadau digartref yn golygu bod pwysau uchel ar lety dros dro ar draws ardal SARTH gyda chyfanswm o 812 aelwyd mewn llety dros dro ddiwedd mis Mawrth 2023. Mae ceisiadau am dai cymdeithasol wedi tyfu mewn blynyddoedd diweddar ac mae effaith yr argyfwng economaidd yn amlwg yn y cynnydd hwn a hefyd yn yr anghenion cymorth y mae aelwydydd yn cyflwyno gyda nhw. Yng nghyd-destun y prinder mawr o stoc tai cymdeithasol, mae'r galw cynyddol hwn am dai a chymorth cysylltiedig yn cynyddu heb unrhyw ffordd amlwg i lacio'r pwysau. Mae datgysylltiad sylweddol rhwng ymgeiswyr am dai, proffil y digartref a'r cyflenwad lleol. Wrth ganolbwyntio yn benodol ar y cohort digartref yn Sir y Fflint,  angen eiddo  ystafell wely oedd 84% o'r aelwydydd hynny a oedd yn ddigartref ac a letywyd gan y Cyngor. Mae'r mwyafrif dan 55 oed, felly angen tai anghenion cyffredinol, ond dim ond canran bach iawn (llai na 7%) o'r holl stoc sydd ar gael sy'n ateb y galw hwnnw.

Mae partneriaid SARTH a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn yn rhannu pryder y bydd yr awydd i gartrefu'r rhai sydd wedi eu dosbarthu'n swyddogol fel 'digartref' (yn nhermau technegol dyletswyddau'r awdurdodau lleol) yn gwyro adnoddau ymaith o eraill mewn angen, sydd efallai mewn llety gorlawn neu sydd fel arall yn ansicr, a gallant ddod yn 'ddigartref' ar unrhyw amser. Byddai colli ffocws ar y darlun ehangach hwn, er mwyn ateb nodau tymor byr cartrefu'r rhai y mae dyletswydd iddynt, er anfantais hir dymor i system tai cymdeithasol effeithol.

Mae'r risg i bob partner sy'n ymwneud â'r amgylchedd anodd hwn yn uchel iawn, gyda phortffolio llety dros dro gorlawn lle nad yw tai o'r math gorau ar gyfer ei breswylwyr, cyfleoedd symud ymlaen cyfyngedig i osodiad hirdymor ac anghenion cymorth uchel ar gyfer partneriaid darparwyr tai i reoli unwaith y gwnaed dyraniad. Mae'r partneriaid yn rhannu pryder y bydd rhoi blaenoriaeth gynyddol i aelwydydd digartref dros y rhai gydag anghenion eraill, heb ymyriadau sy'n cynyddu yn ystyrlon ddarpariaeth stoc addas a thrin anghenion cymorth tenantiaid, yn creu mwy o bwysau na fedrir ei reoli.

# ATODIAD 2: CWESTIYNAU AROLWG DI-ENW CYMRU GYFAN

1. Beth yw enw eich sefydliad?
2. A yw eich sefydliad yn rhan o neu'n gweithredu Polisi Dyraniadau Cyffredin?
3. A yw eich sefydliad yn rhan o neu'n gweithredu Cofrestr Tai Gyffredin?
4. Os ydych yn gymdeithas tai, pa lefel o gytundebau enwebu ydych chi'n eu gweithredu gyda'ch awdurdod lleol?
5. Beth ydych chi'n credu sy'n gweithio'n dda am y dull presennol o ddyrannu yn eich ardal leol?
6. Beth ydych chi'n credu y gellid ei wella o fewn y dull presennol?
7. I ba fath o aelwyd/unigolyn ydych chi'n dyrannu tai amlaf?
8. Beth yw'r sbardun pwysicaf wrth benderfynu i bwy yr ydych yn dyrannu tai? E.e. y stoc tai sydd ar gael, trin digartrefedd, lliniaru angen tai ehangach, enwebiadau.
9. Beth yw'r prif rwystrau wrth ddyrannu tai i'r rhai sydd yn ddigartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref?
10. A meddwl am y fframwaith ddeddfwriaethol a pholisi, pa newidiadau fyddai'n helpu'r dull o ddyrannu i aelwydydd digartref?
11. Pe byddai dyraniadau i aelwydydd digartref neu'r rhai sydd mewn risg o ddod yn ddigartref yn cynyddu, beth fyddai'r prif effeithiau cadarnhaol?
12. Pe byddai dyraniadau i aelwydydd digartref neu'r rhai sydd mewn risg o ddod yn ddigartref yn cynyddu, beth fyddai'r prif effeithiau negyddol?
13. A oes gennych unrhyw beth pellach i'w ychwanegu?

# ATODIAD 3: CWESTIYNAU CAIS CYFLWYNO DATA YCHWANEGOL ARDALOEDD SYLW

1. Eich dull o ddyrannu yn eich ardal (er enghraifft, unrhyw drefniadau partneriaeth, cofrestr tai gyffredin neu fframwaith dyrannu, bandiau, cytundebau a thargedau).

2. Crynodeb o'r amgylchedd gweithredu yn eich ardal. Er enghraifft: cyfanswm poblogaeth, argaeledd/math stoc, cyfraddau digartrefedd, p'un ai oes gennych restr aros ai peidio ar hyn o bryd. Os yn bosibl, dylai'r crynodeb hwn hefyd ddangos maint a nodweddion y boblogaeth a gefnogir mewn llety argyfwng dros dro.

3. Mewn ardaloedd lle mae Cofrestr Tai Gyffredin, bydd angen y data dilynol ar gyfer blwyddyn ariannol 21/22:
   - 3.1. Unrhyw gytundebau enwebu perthnasol neu ddull gweithredu a gaiff ei rannu dan bolisi dyrannu cyffredin
   - 3.2. Nifer gosodiadau anghenion cyffredinol i aelwydydd digartref o'r gofrestr tai gyffredin fesul mil o unedau stoc (os nad yw ar gael, nifer gosodiadau o'r band uchaf)
   - 3.3. Nifer gosodiadau Anghenion Cyffredinol yn yr ardal hon, heb fod o'r gofrestr tai gyffredin fesul mil o unedau stoc.
   - 3.4. Nifer yr enwebiadau a wrthodwyd neu nas gwneud a'r rhesymau am hynny,

4. Lle nad oes cofrestr tai gyffredin yn bodoli, bydd angen y data dilynol ar gyfer blwyddyn ariannol 21/22:
   - 4.1. Unrhyw gytundebau enwebu perthnasol neu ddull gweithredu a gaiff ei rannu dan bolisi dyrannu cyffredin
   - 4.2. Nifer gosodiadau Anghenion Cyffredinol
   - 4.3. Nifer gosodiadau Anghenion Cyffredinol i aelwydydd digartref
   - 4.4. Nifer gosodiadau Anghenion Cyffredinol heb fod i aelwydydd digartref. Manylion y sail ar gyfer gwneud y gosodiadau hynny.
   - 4.5. Nifer gosodiadau Anghenion Cyffredinol yn yr ardal hon.
   - 4.6. Nifer enwebiadau a wrthodwyd neu na chafodd eu gwneud a'r rhesymau pam.

5. Cewch hefyd eich gwahodd i grŵp ffocws rhithiol ym mis Ebrill ar gyfer darparwyr yn eich ardal i ymchwilio'r dilynol:
   - 5.1. Y rhesymau wrth ddyrannu eiddo i aelwydydd digartref.
   - 5.2. Syniadau am newid i gyllid, polisi, deddfwriaeth a chanllawiau a fyddai'n cefnogi lefelau uwch o ddyraniadau i aelwydydd digartref.

5.3. Canlyniadau anfwriadol, risgiau a chyfleoedd newid i ddeddfwriaeth a pholisi cyfredol..

# LLYFRYDDIAETH

CIH Cymru (2020) 'Amser i ailffocysu? Adolygiad o gynlluniau dyrannu tai cymdeithasol ar rent yng Nghymru o fewn cyd-destun Covid 19'. Ar gael yn https://www.cih.org/media/pmllxoxf/time-to-refocus.pdf

CIH (2019) 'Ailfeddwl am Ddyraniadau'. Ar gael yn https://www.cih.org/publications/rethinking-allocations#:~:text=In%20particular%2C%20it%20looks%20at,in%20need%20of%20social%20housing

CHC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2019) 'Dyrannu tai cymdeithasol i aelwydydd gartref yng Nghymru.' Ar gael yn: https://docs.google.com/document/d/1DNXiLxuPxtVjSQhRz8yKVMnQlsPssMNFJ1sgWn2uDKM/edit

Crisis (2022) 'Monitor Digartrefedd: Cymru 2021'. Ar gael yn: https://www.crisis.org.uk/media/246433/the-homelessness-monitor-wales-2021-executive-summary.pdf

Shelter Cymru (2020) 'Dyrannu tai cymdeithasol yn Abertawe'. Ar gael yn: https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/07/Allocation-of-Social-Housing-Report.pdf